



Gwobr Pentref Taclus i Lanberis

Yn diweddar cafodd grŵp o wirfoddolwyr yn Llanberis ei gadarnhau fel enillydd gwobr genedlaethol 'Glanhau eich Cymuned'. Roedd y gystadleuaeth ar-lein yn cael ei rhedeg gan cwmni Robert Scott Ltd; un o gynhyrchwyr a chyflenwyr cynnyrch glanhau mwyaf y Deyrnas Unedig. Pentref Taclus Llanberis ydi'r grŵp dan sylw a bydd yn derbyn diwrnod o gymorth glanhau gan y cwmni a gwerth £500 o offer.

Mae'r grŵp yn cyfarfod bob bore Sul yn siop Menter Fachwen, Stryd Fawr, Llanberis, ac yn falch o gael cefnogaeth pobol a busnesau lleol ac ardaloedd cyfagos. Dywedodd Patricia Pitts, a sefydlodd y grŵp, ei bod yn falch iawn eu bod wedi ennill y gystadleuaeth ac yn ffordd o dangos fod y gwaith mae gwirfoddolwyr yn ei wneud yn cael ei werthfawrogi.

Dywedodd Gill Ireson, ar ran trefnwyr y gystadleuaeth; "Roedd safon ceisiadau ein cwsmeriaid yn rhagorol. Roedd yna lawer o brosiectau teilwng ac yr oedd yn anodd iawn dewis rhwng y goreuon. Ond dewiswyd Pentref Taclus Llanberis fel y prosiect buddugol oherwydd teimlwyd ei fod wedi arddangos gwir ystyr tacluso cymunedol."

Mae croeso i bawb ymuno â'r grŵp i gadw'r pentref yn daclus.

Beth am weddill pentrefi'r fro? Os oes diddordeb dechrau grŵp yn eich ardal chi cysylltwch â trefitaclus@gwynedd.llyw.cymru am fwy o wybodaeth ac arweiniad.

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >

ECO'r Wyddfa

CYMRAG

**RHIF 465
Mai 2018**

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2018

Rhifyn

Gorff/Awst

Copi i law

Sul 24 Mehefin

Bwndelu

Gwener 6 Gorffennaf

Ble

Bethel

LLYTHYRAU



Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru
Centre for Welsh Politics and Society

Annwyl Olygydd

Hoffem dynnu sylw eich darllenwyr at y rhaglen feistr MA Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth. Amcan y rhaglen yw i hyrwyddo dealltwriaeth o'r Gymru gyfoes o safbwynt sawl disgyblaeth: gwleidyddiaeth, hanes a'r gwyddorau dynol. O'r herwydd, mae'r cynllun yn cynnig cyfle gwyh i fagu dealltwriaeth drylwyr o gyd-destun hanesyddol, diwylliannol, economaidd-gymdeithasol a gwleidyddol Cymru. Mae nifer o gyn-fyfyrwyr wedi mynd ymlaen i ddatblygu gyrfaoedd llwyddiannus mewn meysydd megis newyddiaduraeth, lobïo a chyfathrebu gwleidyddol, gweinyddiaeth gyhoeddus, neu wedi defnyddio'r cwrs fel sail ar gyfer gwaith ymchwil PhD.

Mae'r cynllun yn rhan ganolog o waith Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru/ WISERD@Aberystwyth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Golyga hyn bod y myfyrwyr yn medru elwa o astudio o fewn canolfan ymchwil weithgar sy'n lleoli achos Cymru mewn cyd-destun rhyngwladol ehangach. Blwyddyn yw hyd y cwrs a gall myfyrwyr ymgeisio am ysgoloriaethau gan gynnwys grantiau Pantyfedwen (dyddiad cau 30.6.18) ac Ysgoloriaeth Feistr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (dyddiad cau 11.7.18)

Am fwy o wybodaeth ynglyn â'r gwrs (gan gynnwys sut i ymgeisio ar gyfer yr ysgoloriaethau uchod) cysylltwch â Dr Huw Lewis (ffôn: 01970 628638 / ebost: hhl@aber.ac.uk) neu gweler cwps. aber.ac.uk.

Yn gywir
Huw Lewis

Annwyl ddarllenwyr,

Cyfarfod Blynyddol Cyfeillion Geiriadur Prifysgol Cymru

Ar ddydd Sadwrn, 23 Mehefin, bydd cymdeithas Cyfeillion Geiriadur Prifysgol Cymru yn cynnal eu cyfarfod blynyddol yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, am 2 o'r gloch. Y siaradwyr fydd Llywydd y Cyfeillion, y Prifardd Myrddin ap Dafydd, ynghyd â'r Athro Geraint H. Jenkins, Dr Elin Jones, ac Andrew Hawke. Estynnir croeso cynnes i bawb. Bydd cyfle i ymweld â swyddfeydd y Geiriadur i gael 'paned o de wedi'r digwyddiad. Yr ydym yn gobeithio cael cwmni nifer o'n Cyfeillion, a hefyd croesawu Cyfeillion newydd – bydd modd ymuno â'r gymdeithas ar y diwrnod.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan www.geiriadur.ac.uk, e-bostiwch cyfeillion@geiriadur.ac.uk, neu ffoniwch 01970 639094.

Yn gywir
Mary Williams
Ysgrifennydd y Cyfeillion
21 Mai 2018

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£50 - er cof am Betty
Humphreys

£30: Er cof am Helen
Wyn Jones, Tai Caradog,
Deiniolen, gan Bryn a
Kevin.

£20: Mrs Dilys Williams, 7
Llys y Gwynt, Penisarwaun,
er cof annwyl am y
diweddar Eric Iolen; Mrs
Betty Bower, Tan y Marian,
Dinorwig, i gofio yn annwyl
am ei diweddar ŵr, Mr Ray
Bower. John ac Alwena
Hughes Jones, Cil y Bont,
Llanrug er cof am Mrs
Catherine Roberts Hughes-
Jones; er cof am Falmai
Pritchard gan John a'r teulu.

£13: Mrs Alwena Jones,
Corlan y Rhos, Llanrug.

£10 - Parch Elfyn Richards,
Wrecsam; Anne a'r teulu,
Bethel er cof am ei thad
Emlyn Davies; Arnold
Roberts, 4 Hafan Elan,
Llanrug; Megan Jones, 58
Glanffynnon, Llanrug;
Guto, Daniel a Sam,
Deiniolen; Eurwen a Mary,
Deiniolen.

£5: Eileen May Jones, Hafan
Elan, Llanrug.

£3: Robert J. Williams,
Tyddyn Badin, Pentir; Di-
enw, Llanrug

Ymddiheuriad

Gyda diolch i bawb a anfonodd ddeunydd i'w gynnwys yn rhifyn Mai o "Eco'r Wyddfa". Byddai wedi bod yn bosib cynhyrchu rhifyn 40 tudalen – pe bai amgylchiadau ariannol yn caniatáu. Yn anffodus, bu'n rhaid hepgor nifer helaeth o eitemau. Mae rhai ohonynt yn cael eu cynnwys y mis hwn, ond mae eraill wedi dyddio. Diolch hefyd i bawb a fu mor barod i anfon adroddiadau am wahanol chwaraeon yn ystod absenoldeb y Golygydd Chwaraeon.

Cofio Gorsaf Marconi



I genhedlaeth a fagwyd yn y fro rhwng y ddau Ryfel Byd, roedd sŵn y gwynt yn chwibannu drwy fastiau uchel yr orsaf radio ar lethrau’r Cefn Du yn ddigwyddiad cyffredin. Daeth oes yr orsaf i ben yn 1939 a thynnwyd y mastiau i lawr, ond mae olion eu sylfeini’n dal i guddio yng ngrug y mynydd.

Bellach mae bwrdd gwybodaeth wedi ei osod yng Ngheunant wrth geg y lôn sy’n arwain at hen adeiladau’r orsaf. Mae braslun o’i

hanes i’w gael yno, ond gyda ffôn symudol gellir cysylltu â “history point” i gael mwy o wybodaeth. Mae’r bwrdd gwybodaeth yn cofio digwyddiad o bwys, sef y safle ble’r anfonwyd y neges radio ddiwifr gyntaf erioed o Brydain i Awstralia yn 1918, a honno oddi wrth Gymro - Lloyd George yma yng Nghymru, i Gymro arall – Billy Hughes, Prif Weinidog Awstralia, ond yn enedigol o Landudno.

Yn ystod y mis aeth heibio

- Cyn i Eco Mai ddod o’r wasg roedd Llywodraeth Cymru wedi ‘cyfaddawdu’ efo Westminster a chytuno – yn groes i’w ‘safiad cadarn’ gyda’r SNP – i Lywodraeth Llundain fod â rheolaeth dros ddeddfau yn syth wedi Brexit. Llywodraeth yr Alban yn parhau i wrthwynebu, ac yn cael cefnogaeth gan y Blaid Lafur a Jeremy Corbyn. Ond Llafur Cymru yn ildio ac yn pleidleisio efo’r Toriaid ac UKIP. Mae’n debyg mai’r enw am hyn yw Maysymgrymu.
- Y Briodas. Fe ddaeth, ac fe aeth, a NEB o’r fro wedi trefnu parti stryd i ddathlu – a chael eu llun yn y papur bro! Ac fe gostiodd £32 miliwn. Ond chwarae teg, roedd y teulu brenhinol yn talu £2 filiwn. Dim ond £30 miliwn oedd cyfraniad y trethdalwyr. A byddai’r arian hwnnw wedi medru cyfrannu tuag at bob un o’r trigolion di-gartref a gai eu clirio oddi ar y strydoedd yn Windsor, a chyfrannu at fanciau bwyd led-led y wlad. Ond peidied a gadael i fanion felly amharu ar y Sbloets Brydeinllyd.
- Ar noson cyn Y Briodas, Theresa May yn creu naw yn fwy o arglwyddi Toriaidd, a hynny er iddi fod yn gefnogol i leihau’r nifer yn Nhŷ’r Arglwyddi. Does a wnelo hyn oll ddim byd a’r ffaith fod yr arglwyddi wedi gwrthwynebu Llywodraeth May bymtheg o weithiau yn ystod y mis diwethaf.

- Ar y diwrnod roedd Trump yn dathlu sefydlu llysgenhadaeth yr Unol Daleithiau yn Jeriwsalem, degau ar ddegau o Balesteiniaid yn cael eu lladd gan filwyr Israel, a hynny yn y ‘carchar agored mwyaf yn y byd.’ Llywodraeth Iwerddon yn galw am eglurhad gan lysgennad Israel. Mwyafrif gwledydd y gorllewin yn troi clust fyddar i’r galwadau am gondemnio gweithrediadau Israel.
- Gochelwch, gochelwch, gochelwch rhag defnyddio’r gair ‘gammon’. Mae’n ymddangos ei fod bellach yn cael ei ystyried yn air ‘hiliol’. A hynny oherwydd ei fod yn disgrifio dynion canol-oed gwyn sy’n brygowthan cymaint nes bo eu hwynebau’n troi’n goch. (Mae’r dudalen hon wastad mewn du a gwyn!)
- Ac ar nodyn ysgafnach i’r dynion – o bob oed a lliw – sy’n colli eu gwallt. Pam fod prisiau torri gwallt yn aros yr un pris neu hyd yn oed yn cynyddu er fod llai o wallt i’w drin? Yn ôl un barbwr mae’n dâl am yr amser a ddefnyddir i chwilio am hynny o wallt sy’n weddill i’w dorri!

Ysgol Gynradd



Blwyddyn 5 a 6 wedi mwynhau cwrs Chwaraeon am Oes yn yr haul.



Diolch o galon i Yncl John am ddod â bws Whiteways i'n gweld ni yn y dosbarth derbyn a blwyddyn 1.



Blwyddyn 3 a 4 yn brysur yn cael cwis diogelwch y ffyrdd gan Paula Owen a Shirley Williams fel rhan o'r wythnos iach!



Diolch yn fawr iawn i Mr Chris Pritchard PMaCaernarfon am ddod i'r ysgol i'n helpu ni ddatblygu ein ymennydd gwyrdd. Bl 1 a 2 iach ac yn heini!



Gôl!! Blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn brysur yn sesiwn hyfforddi pêl-droed efo Nathan Craig.



Disgyblion Bl5&6 wedi mwynhau sioe ddrama am fordaith ar y Mimosa. Pawb wedi mwynhau !



Diolch i griw Teithiau Egniol yr ysgol am eu gwaith caled yn ystod cyfnod y Big Pedal. Daethom yn 11eg yng nghategori ysgolion mawr Cymru. Da iawn pawb!



Blwyddyn 3 a 4 wedi cael sioe mewn cymeriad yn yr ysgol.



Y cyngor ysgol yn cyflwyno sic o £300 i Eleri o elsuen CLIC. Arian i Gronfa Nicola sydd yn cefnogi plant lleol.

Parhad LLANRUG



Clwb Sul Capel y Rhos



Yn ystod y mis treuliodd yr aelodau hyn ben-wythnos yng Ngholeg y Bala a mwynhau eu hunain yng nghwmni plant o ysgolion Sul eraill.



Fel rhan o wythnos Cymorth Cristnogol trefnodd athrawon y Clwb Sul daith gerdded, gyda'r plant yn cael eu noddi am ei chwblhau. Bu'r tywydd yn eithriadol o ffafriol a chafodd y plant, yr athrawon a'r rhieni daith o Ben Llyn drwy Frynrefail i Glwt y Bont ac yn ôl drwy'r Creigiau. Roedd paned a chacen yn Y Caban yn flasus iawn ar ddiwedd y daith!
Ymwelodd Haf Thomas a'r Clwb y Sul dilynol i son am ei gwaith yn creu cardiau i godi arian at wahanol achosion da. Mae'r Clwb yn ddiolchgar iawn i Haf am ei rhodd ariannol i brynu byrddau i'r plant.

Crac Shot

Dyma Luned Gwilym o Llwyn Onn, Llanrug, yn arddangos y fedal a enillodd am saethu colomennod clai. Ar ymweliad â chanolfan saethu FauxDegla yn Llandegla, Dyffryn Clwyd yn ddiweddar, trechodd Luned ei chydweithwyr o gwmni cyfieithu Cymen gan ddod i'r brig allan o 20 o saethwyr. Tybed a fydd tîm Cymru yn galw cyn bo hir? Un peth sy'n sicr, does fiw i'w chydweithwyr feddwl ei galw'n 'gloman wirion' a chrac shot fel Luned yn eu mysg!



Cyhoeddi enwau y Deian a'r Loli newydd



Pan fydd cyfres newydd o'r rhaglen blant hynod boblogaidd Deian a Loli yn dechrau ar S4C, mi fydd dau wyneb newydd yn ein cyfarch yn rôl yr efeilliaid direidus a chanddynt bwerau hudol. Ar ôl ystyried bron i 600 o blant i gyd, mae'r cwmni cynhyrchu Cwmni Da bellach wedi dewis dau actor ifanc newydd i chwarae rhannau Deian a Loli ac actores ifanc o Lanuwchllyn sydd wedi cael ei dewis i chwarae rhan Loli.

Gwern Rhys Jones o Lanrug fydd yn actio Deian a Lowri Anes Jarman o Lanuwchllyn fydd yn cymryd rhan Loli. Mae Gwern yn ddisgybl yn Ysgol Llanrug a Lowri yn mynychu Ysgol Syr O. M. Edwards, ac mae'r ddau yn edrych ymlaen yn arw at yr her.

Mae Gwern, sy'n 11 oed, yn ysu i ddechrau ffilmio; "Mi roedd actio yn y clyweliadau yn lot o sbort ac mi roeddwn i wrth fy modd pan ges i fy newis i chwarae rhan Deian. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at gael ffilmio Deian a Loli a dod i nabod pawb o'r criw. Dwi'n siŵr y cawn ni lot o hwyl."

Roedd Lowri a Gwern wedi dal sylw tîm cynhyrchu'r gyfres o'r cyfarfod cyntaf, meddai cynhyrchydd y gyfres Angharad Elen; "O'r cychwyn cyntaf, roedd Gwern a Lowri yn serennu. Mae 'na ryw beth annwyl iawn am y ddau, ac mae 'na ddireidi pendant yn perthyn iddyn nhw - sef un o'r elfennau roedden ni'n gobeithio ei ganfod yn y ddau actor newydd. Rydan ni'n edrych ymlaen yn arw iawn i'w croesawu nhw'n aelodau o deulu bach Deian a Loli!"

"Hoffwn ddiolch i bob plentyn a wnaeth gais i ymddangos yn y rhaglen. Roedd hi'n enbyd o anodd dewis dau am fod y gystadleuaeth mor uchel - dylem ymfalchïo fod y fath dalent yn bodoli yng Nghymru."

Bydd y gyfres newydd, gyda'r Deian a Loli newydd, yn dechrau ffilmio ym mis Gorffennaf eleni, ac yn cael ei darlledu yn rhan o wasanaeth Cyw S4C yn gynnar yn 2019.

Ffrindiau Ysgol Gynradd Llanrug.

Mae wythnos o weithgareddau wedi eu paratoi gan Ffrindiau'r Ysgol.

Nos Lun Mehefin 4ydd : Taith Gerdded i'r Teulu

Nos Fawrth Mehefin 5ed : Helfa Drysor

Nos Fercher Mehefin 6ed : Ras plant a Ras Sk

Nos Iau Mehefin 7fed : Bingo

Dydd Sadwrn Mehefin 9fed : FFAIR HAF, gorymdaith yn cychwyn am 1 o'r gloch o Nant y Glyn.





Merched y Wawr Nos Fawrth, Mai 8fed, estynnwyd croeso cynnes i nifer dda o aelodau i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Llywydd, Bethanne. Cychwynnwyd y cyfarfod gyda Chân y Mudiad gyda Megan yn cyfeilio. Derbyniwyd rhai ymddiheuriadau a braf oedd cael croesawu Nan yn ôl wedi'i thriniaeth yn ddiweddar. Cydymdeimlwyd yn ddwys ag Avril a'r teulu wedi eu profedigaethau yn ddiweddar. Darllenwyd Cofnodion Blynyddol 2017 ac fe'u cafwyd yn gywir. Bu ethol Swyddogion ar gyfer 2018/19 yn rhwydd tu hwnt gyda Bethanne yn fodlon llywyddu am flwyddyn ychwanegol, gyda Eryl yn Is-lywydd, Gwenda a Carys yn fodlon gweithio ar y cyd fel Ysgrifenyddion ac Ann Lloyd ac Eirianwen yn gyfrifol am ymweliadau a'r wibdaith. Pat yn fodlon parhau fel Trysorydd gyda Olwen yn Is-drysorydd. Cytunodd cynrychiolwyr Celf a Chrefft, Anabl, Dysgwyr, Gohebydd y Wasg a Dosbarthwr y Wawr i barhau a'r gwaith.

Cafwyd adroddiad gan Bethanne yn diolch am lywyddiaeth hapus a diddorol. Bu Caffi'r Urdd yn ddiwrnod prysur fel arfer ond bu'r gwmniaeth a'r hwyl yn lleddfu tipyn ar y blinder! Am y tro cyntaf ers blynyddoedd aeth 2 dim i'r Bowllo Deg. Cafwyd llwyddiant ysgubol, sef 1af ac 2il. Ymlaen i Ffeinal y Gogledd ym mis Mehefin. Diolchwyd i'r cyd-swyddogion am hwyluso'r gwaith iddi fel Llywydd ar hyd y flwyddyn.

Derbyniwyd llythyr gan Sefydliad y Galon, Caernarfon a'r Cylch yn nodi na fyddai Cangen Caernarfon a'r Cylch yn cynnal casgliad o ddrws i ddrws eleni. I'r rhai a fynychodd Wyl y Pum Rhanbarth ar Sadwrn, Mai 12fed, yn Ysgol Friars Bangor bu'r ymateb i raglen y dydd yn ysgubol. Roedd pawb ar eu traed wedi cyflwyniad gwyh Côr Ieuencid Môn gyda'u 'Taith drwy hanes a chasgliad cerddorol'. Dilynwyd gyda sgwrs ddifyr a ffraeth gan Robert David gyda 'O Ben Llŷn i Brooklyn'. Bu i'r cinio bwffe i ddilyn blesio pawb fel arfer. Yn absenoldeb Gareth Wyn Jones, daeth Emyr Wyn Jones i sôn am Amaethyddiaeth, sgwrs gartrefol ac yntau yn teimlo'n hynod lwcus o fod wedi cael aros yn ei gynefin. Yna cafwyd

orig anhygoel o gerddorol gan 'Y Brodyr Magee', brodyr dawnus yn cyflwyno eitemau offerynnol a lleisiol a phawb wedi eu mwynhau yn arw iawn. Bu'n ddiwrnod ysbrydoledig tu hwnt.

Rydym fel cangen yn ymfalchio mai un ohonom ni, sef Meirwen, fydd Llywydd Cenedlaethol nesaf y Mudiad, ac fe fydd Meirwen yn cael ei hurddo ar y dydd Mercher yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Fro. Bydd dathliad 'Cychwyn Cyfnod ei Llywyddiaeth' yng Ngwesty'r Celt nos Wener, Hydref 18fed, am 7.30. Ein dymuniadau gorau i ti, Meirwen, a phob bendith.

Dydd Sadwrn, Mehefin 16, byddwn yn mynd ar ein Gwibdaith Ddirgel. Bydd y bws ym Mhenisarwaun am 11.15 y bore yna Nant y Glyn a'r Sgwâr. Byddwn yn cyrraedd y prif leoliad am 2.30 y pnawn a chael te bach a gobeithio dod adref erbyn 6.30.

Derbyniwyd cerdyn o ddiolch gan Linda yn diolch o galon am yr holl arwyddion o garedigrwydd a gafodd tra yn yr ysbyty ac wedi dod adref. Bu'r holl gynhesrwydd o help mawr i wella ar ôl y ddamwain. Mae'n gobeithio'n arw y gall ddod ar y wibdaith. Byddwn ninnau'n hynod o falch o'th weld, Linda.

Cynhelir 'Ffair Haf' Rhanbarth Arfon, Is-bwyllgor Anabl, ar Fehefin 8fed am 10.00 y bore yng Nghanolfan Ebeneser, Caernarfon. Pris mynediad fydd £1. Elw at Hafan Menai.

Te Bach Pnawn arbennig i Gronfa Archie, 10 Rhos Rhug, yn Hafan Elan, brynhawn Iau, Mehefin 28ain, 2018 rhwng 2 a 4:30. Pris mynediad fydd £3.-Dewch i gefnogi'r achos da hwn.

Capel y Rhos. Oedfaon Mehefin

3: Y Gweinidog Parch. Marcus Wyn Robinson

10: Parch Huw Pritchard

17: Y Gweinidog

24: Ms Anna Jane Evans

Garddwest Cynhelir garddwest brynhawn Sadwrn, Gorffennaf 7fed rhwng 2 a 4 y prynhawn yng ngardd Bron y Nant, Pontrhythallt. Bydd stondinau, raffl a the prynhawn ar gael. Trefnir gan Eglwys Sant Mihangel, Llanrug

Diolchiadau Dymuna Mrs Megan Jones, 58 Glanffynnon,

ddiolch yn arw i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

Profedigaethau Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Eifion ac Angela Roberts, Stad Nant y Glyn, yn eu profedigaeth o golli eu wŷr bach, Oliver, yn 10 oed. Mab i David, sy'n byw yn ochrau Warrington. Colled fawr iawn i chi.

Y mis diwethaf roeddem yn cydymdeimlo â Douglas ac Avril Jones, 14 Minffordd, yn eu profedigaeth o golli brawd Doug a'i wraig ond, yn drist iawn, rhaid cydymdeimlo eto oherwydd bu farw brawd arall i Doug yn fuan wedyn. Cofiw amdanoch yn eich profedigaeth.

Yn annisgwyl o sydyn bu farw Jude Hughes yn 57 mlwydd oed. Gwraig hynod i Harry, mam arbennig a gofalgwr i Gareth, Nia, Sian a Iola. Nain sbesial iawn i'r wyrion a'r wyresau bach y byddai yn eu gwarchod i gyd. Mam yng nghyfraith garedig i Owain a Colin, chwaer, chwaer yng nghyfraith a ffrind i lawer iawn a chymydog annwyl iawn. Bydd colled enfawr ar yr aelwyd i'w chwaer a brawd a phawb oedd yn ei hadnabod.

Roedd Capel y Rhos yn llawn i'r ymylon yng ngwasanaeth yr angladd, tyst da o'i phoblogrwydd a chariad ati a'r teulu oll.

Yn 97 mlwydd oed bu farw Mrs Ceridwen Jones, Eryri, Ffordd yr Orsaf, yn dawel yng Nghartref Penisarwaun, lle y cafodd ofal arbennig. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r plant, Dewi, Mair a Gwen, Howyn a Wyn, Catrin a Bryn, Eifion ac Ellen, Sioned ac Ifan a'r gor-wyrion a wyresau, Beca, Caio, Owain a Guto. Hefyd ei brawd Stanley Roberts, Glanffynnon, a Neville a Morfudd.

Gwraig hynod o annwyl a thawel, bydd colled fawr iawn ar ei hôl. Cydymdeimlwn â chi fel teulu.

Cymorth Cristnogol Erbyn hyn bydd y casglu o ddrws i ddrws wedi ei wneud. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth ac i'r casglwyr yn arbennig.

Cydymdeimlad Cofiw at Mrs Megan Axon, Hafan Elan, ac Anita, Bryn Moelyn, yn eu colled hwy o ffrind annwyl,

Enid o'r Fron. Bu y ddwy yn ofalus iawn ohoni am rai blynyddoedd.

Yr un modd cydymdeimlwn â Selwyn a Vera Jones, Ffordd yr Orsaf, yn dilyn eu profedigaeth sydyn iawn pan fu farw eu chwaer yng nghyfraith, Margaret Jones o Ddeiniolen, oedd hefyd yn chwaer yng nghyfraith i Mrs Maud Jones, Tai Crawia.

Croeso Daeth Merfyn a Sonia Jones yn ôl i Lanrug i fyw wedi cael cartref arbennig yn Hafan Elan. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ôl yn eich cynefin.

Pen-blwydd Hapus Cafodd Mrs Eileen May Jones, Hafan Elan, ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Bu allan yn dathlu sawl gwaith gyda theulu a ffrindiau. Dda iawn chi, Eileen, dim rhyfedd eich bod yn edrych yn dda!

Brysiwch Wella Da ydi deall fod Mair Wyn Williams, Stad Tal y Bont, yn gwella. Mae wedi bod yn methu dod allan o'r tŷ ac yn colli dod i gael ei chinio bob wythnos yn Hafan Elan! Brysiwch wella, Mair, mae colled heb eich cwmpeini.

Diolchiadau Fe ddymuna Mrs Eileen May Jones, Hafan Elan (Deiniolen gynt), ddiolch yn arw i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd yn anfon anrhegion, cardiau ac arian iddi ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

Cydymdeimlad Cofiw at Rhian Parry Evans a'r teulu, Stad Nant y Glyn, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl. Roedd Mr Parry yn wyneb cyfarwydd yma gan ei fod yn trafaelio bron yn ddyddiol o Flaenau Ffestiniog i warchod y plant pan oeddent yn fengach. Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu.

Llongyfarchiadau i Nicola a Kevin, Madryn, Ffordd yr Orsaf, ar enedigaeth eu mab bach, Eban. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu. Mae John a Gwen, Haulfryn, yn nain a thaid eto.

Llongyfarchiadau mawr i Sion Williams (mab Alwyn a Sharon Williams, Cae Garw) a'i bartner Caitlin ar enedigaeth eu mab perffaith- Oliver.

Plaid Cymru

Ennillwyr clwb cant Mis Mai

1.. Sion Humphreys

2.. Meryl Green

LLANBERIS Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740



Diolchiadau Hoffai Helen, Tony a theulu'r ddiweddar Betty Humphreys, Nant, ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn a llythyrau a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain, hen nain a modryb annwyl iawn iddynt. Diolch am y rhoddion ariannol i Blas Pengwaith, Eglwys St. Padarn a Meddygfa Llanberis.

Diolch hefyd i'r Parch. Ddr. Carol Roberts am ei gwasanaeth teimladwy; i Iwan Williams wrth yr organ ac i Dafydd a Jane o gwmni E.W. Pritchard am y trefnu trylwyr a pharchus.

Cais am Newyddion Pe baech chwi, fel unigolyn/ Cymdeithas/ criw neu enwad, yn hoffi cynnwys unrhyw eitem o Newyddion sy'n berthnasol

i'r pentref yn yr Eco, gyrrwch ef i mi drwy alwad ffôn, llythyr neu ebost.

Côr Meibion Dyffryn Peris Ar Nos Fawrth, Mai 22ain, bu'r Côr yn perfformio o flaen cynulleidfa o bron i 400 yn Eglwys Sant John, Llandudno. Cafwyd derbyniad gwresog iawn i holl eitemau'r Côr ac i'r unawdydd, sydd hefyd yn arwain y Côr, Mr Dafydd Roberts. Braf oedd gweld pedwar o'r pum aelod ifanc newydd o'r Côr yn mwynhau eu cyngerdd mawr cyntaf.

Oherwydd y datblygiadau sydd yn mynd ymlaen yn yr Oriel, mae'r Côr yn hynod falch o gael cynnal eu hymarferion Nos Lun, yng Ngwesty Dolbadarn o'r 4ydd o Fehefin ymlaen, am 7.30.

Gwasanaethau Capel Coch am Fehefin

3ydd: 10yb Mrs Nerys Griffiths

10fed: 10yb a 5yh Y Gweinidog

17eg: 10yb Mr Huw Tegid Roberts

24ain: 10.30yb Oedfa Deulu

CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

Capel Caeathro. Dydd Sul, Mehefin 3ydd am 2.00 gwasanaethir gan y gweinidog, y Parch Marcus Robinson a gweinyddir y cymun. Dydd Sul, Mehefin 17eg am 2.00 gwasanaethir gan y Parch Pryderi Llwyd Jones.

Tynfa Fisol. Dyma enillwyr mis Mai: 1af (30) £40 J. Evans, Llwyn Alice; 2il (4) £25 M.Owen, Cae Phylip; 3ydd (37) £15 Ceri Evans 6 Erw Wen; 4ydd (40) £5 Jayne, Tyddyn Cae. Diolch i bawb sydd yn cefnogi gweithgareddau y Gymdeithas Cae Chwarae.

Dymuno'n dda. Deallwn fod Dewi Jones, Erw Wen yn Ysbyty Gwynedd, a dymunwn adferiad llwyr iddo. Hefyd i Heather Jones, Fferm Glanrafon gafodd ddamwain yn ddiweddar a thorri ei garddwrn. Brysiwch wella.

Profedigaethau. Daeth newyddion trist i deulu Huw a Iona Ceiriog, Erw Wen sydd wedi colli Lisa Sian o Landdoget, yn sydyn yn Aberystwyth ble roedd yn fyfyrwraig. Roedd yn wyres i Huw, ac yn bedair ar bymtheg oed. Cydymdeimlad dwys i chi fel teulu. Hefyd cydymdeimlwn ac Alun a Nia Jones, Y Dderwen yn eu colled o frawd yng nghyfraith Nia yn Staylitttle.

Eisteddfod yr Urdd. Pob hwyl i bawb sy'n cystadlu mewn unrhyw fodd yn y Genedlaethol eleni yn Llanelwedd. Dewch ac unrhyw ganlyniadau a newyddion ar gyfer rhifyn yr haf.

Gwelliannau. Bydd llawer ohonom bellach wedi sylwi ar yr ail-wynebu ar y ffyrdd o amgylch y pentref, yn Rhos Bach ac ar gyrion Penrhos. Bydd yn haws o lawer i feicwyr ac i famau yn gwthio pram, heb son am y ceir. Diolch i'r Cynghorydd Edgar Owen am ei ddyfalbarhad yn gwthio'r cwch i'r dwr fel petae.

Merch o Lanberis yn sefydlu busnes amgylcheddol Planet Happy



Mae Anna Lomax (Roberts gynt) yn byw erbyn hyn yn Whaley Bridge ac wedi sefydlu busnes o'r enw Planet Happy. Yma, mae'n adrodd sut y gwiredwyd ei syniad:

"Mi ddechreuais chwilio am gwmnïau oedd yn gwneud cynnyrch glanhau tŷ sy'n fwy caredig i'r amgylchedd a darganfod bod yna gwmnïau sy'n gwneud cynnyrch sy'n gallu cael eu hail-lenwi. Roedd y syniad yma'n apelio'n arw ata'i ond yn anffodus doedd yna neb yn gwerthu'r cynnyrch yn lleol i mi. Dyna pam y penderfynais ddechrau busnes fy hun a llenwi'r bwlch yma yn y farchnad leol.

Mae yna 300 miliwn tunnell o blastig yn cael ei gynhyrchu ledled y byd yn flynyddol, gyda dim ond 10% yn cael ei ailgylchu. Gyda chymaint o sŵn yn y cyfryngau yn ddiweddar am y nifer echrydus o blastig un-defnydd sy'n cael ei daflu i ffwrdd yn ddyddiol, rydw i wedi darganfod bod nifer fawr o bobl yn teimlo yr un fath, ac yn barod i gymryd camau i newid y ffordd y maent yn siopa.

Cynnyrch gan y cwmni Bio-D yr ydw i yn ei werthu. Maent wedi sefydlu yn Hull. Mae'r cynhwysion i gyd yn naturiol ac yn gydnabyddedig gan y Gymdeithas Figan a Chymdeithas Ryngwladol 'Cruelty Free'. Maent yn hypoallergenig ac yn torri i lawr yn naturiol yn yr amgylchedd. Gall pobl ddychwelyd dro ar ôl tro i ail-lenwi eu poteli felly does dim angen prynu potel newydd blastig bob tro mae'r cynnyrch yn darford.

Hyd yma mae'r ymateb wedi bod yn bositif iawn ac rwyf yn ystyried ehangu'r busnes er mwyn rhoi cyfle i fwy o bobl sydd a diddordeb, i siopa'n fwy cydwybodol."

Pob llwyddiant i Anna gyda'i gweledigaeth. Tybed oes rhywun/ rhywrai yn ein bro ni a allai gynnal busnes tebyg? Neu a wyddoch chi am rai o blant y fro sy'n byw mewn rhannau eraill o'r byd ac yn rhedeg busnes anarferol. Rhowch wybod.

RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholïau

AR GYFER
POB

ACHLYSUR

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!

Cysylltwch a

John Brynafon
LLANRUG

www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch
ein
hysbysebwy

Teyrnged i'r diweddar Eric Iolen Williams

Colli gwên a cholli cwmni

Colli un oedd annwyl inni,

Duw sy'n trefnu ffordd rhagluniaeth,

Duw yw'r balm sy'n lleddfu'r hiraeth.

Ganwyd Eric Iolen Williams ar y 7fed o Ragfyr 1957 yn fwndel o berffeithrwydd i'w rieni balch a chariadus, Richard Harries, neu Dic Rhiw Goch a Dilys Williams, yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Cariodd Eric yr enw Iolen ymlaen ar ôl ei ddiweddar ewythr, Morris Iolen, brawd ei dad; a thestun cryn falchder i Eric oedd bod yr Iolen yn cael ei barhau gan y teulu.

Aelwyd gyntaf Eric oedd Pen Rhiw yn Ninorwig, aelwyd llawn sbort, cariad a chefnogaeth a thra yn byw yno y bedyddiwyd Eric yn Eglwys Santes Fair, Dinorwig.

Pan symudodd y teulu i Dan yr Henffordd, Clwt y Bont, ymunodd Eric a'r teulu â'r capelwyr gan fynychu Capel Ysgoldy a'i hysgol Sul. Ac mewn dim o dro roedd hi ym amser iddo gychwyn ar ei daith addysgol, gydag Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen, y bennod gyntaf.


Pan yn 7 mlwydd oed daeth amser i newid aelwyd a Thŷ Capel Dinorwig oedd y cartref a fuasai yn gartref iddo tan iddo briodi. Yr aelwyd yma oedd yr aelwyd a brofodd golled anamserol, ddirybudd a brwnt ei dad ar y 15fed o Ragfyr 1984.

Wedi'r ail bennod yn Ysgol Dinorwig, Ysgol Brynrefail oedd y drydedd ac yno y bu tan, yn un ar bymtheg mlwydd oed, y dechreuodd weithio i Argraffwyr Sackville. Pa feddyliai ar y pryd y buasai'r prentis yn dod yn berchennog a phennaeth? Ond dyna oedd yr hanes ac, yn driw i'r gwaith hwn y bu am dros ddeugain mlynedd. Mawr yw ei waddod yn y gwaith, gyda hoffter, anwyldeb a pharch ei gwsmeriaid yn dysteb deilwng i'w waith a'i gymeriad a'u cydymdeimlad yn llw at yr argraffwr annwyl. Nid oes un negydd i'w glywed amdano gan ei lu cwsmeriaid sy'n ehangu sbectrwm llydan o feysydd a busnesau. Maent oll yn meddwl y byd ohono gan gyfeirio at ei natur hwyliog, garedig a hapus. Maent oll yn rhannu eu syndod am ei farwolaeth.

Ychydig flynyddoedd wedi dechrau gweithio yn Argraffwyr Sackville, cyfarfu Eric â Muriel. Ac fel mae nhw yn dweud, 'the rest is history'. Wedi carwriaeth hapus o chwe blynedd daeth priodas ar y Sed o Ebrill 1986 gan symud i Fryn Teg, Tregarth, a dyma hi yr aelwyd i'r pâr am y tri deg a dwy o flynyddoedd nesaf. Aelwyd llawn croeso yn wastad, fel pin mewn papur ac yn llawn cariad, parch a hwyl.

Heb os, dyma bartneriaeth arbennig; roedd yr hapusrwydd roedd y ddau yn ei roi i'w gilydd yn gynnil glir i'w weld a'r mwynhad yng nghwmni ei gilydd yn braf i'w dystio. Roedden nhw yn ffrindiau gorau, yna i'w gilydd doed a ddelo ac yn rhannu popeth. Roedd hon yn enghraifft berffaith o briodas. Heb os roedd Eric yn ofalus o Muriel, yn warchodol ohoni ac am wneud yn siŵr na châi gam. Ac yn yr un modd roedd Muriel yn fawr ei gofal o Eric. Roedd hon yn briodas arbennig, yn driw, didwyll a diffuant.





✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.

✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.

✓ Adran teithiau grŵp.

✓ Tocynnau rhodd.

✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvoniaco.uk






Mawr oedd gofal Eric o'i fam ar hyd y blynyddoedd, yn arbennig wedi marwolaeth ei dad. roedd ei rinwedd feddylgar a gofalus yn dod i'r amlwg gyda'i fam, fel gyda Muriel. Doedd dim yn ormodd o drafferth, byth; roedd yn ddibynadwy i'r carn. A doedd dim rhyfedd yn y byd i rieni Muriel ei gymryd fel mab arall; roeddent yn meddwl y byd o Eric, fel yn wir, frodyr Muriel, oedd wedi cymryd Eric fel eu brawd mawr.

Roedd Eric yn dynnwrcoes heb ei ail. Yn smala, hwyliog a phryfoclyd ac wrth ei fodd yn llenwi'r ystafell efo hwyl ac weithiau reiat. Ond roedd Eric yn gallu cymryd ei bryfocio yn ogystal â phryfocio ac roedd hiwmor hwyliog yn britho ei fywyd yn feunyddiol. Ond doedd dim yn rhoi mwy o fwynhad i Eric na cwmni ei nithod a'i neiod. Chwarae a chwerthin yn llenwi'r tŷ â hwyl. Roedd yn meddwl y byd ohonynt ac roeddent hwy hefyd yn caru eu Yncl Eric yn ddirfawr. Ni wnaeth yr un Nadolig, Pen-blwydd na Phasg basio heb i Eric a Muriel gofio am eu nithod a'u neiod, bob un, er maint cynyddol y teulu.

Roedd Eric yn gymwynaswr mewn ffordd ddiymhongar, ddirgel. Gwneud cymwynas er mwyn helpu yr oedd Eric, nid er mwyn y diolch neu'r sylw, neu er mwyn dweud iddo wneud. Na, gwneud ar y siars nad oedd neb i ddod i wybod ac roedd ei waith yn fodd iddo wneud hynny.

Un o bleserau mawr Eric oedd hyfforddi cŵn defaid, crefft a ddysgodd gan ei ddiweddar dad. Tyfodd diddordeb Eric i gryn lwyddiant, gan ennill llw o wobrau a theitlau. Trodd y cystadlu yn feirniadu ac yn wir beirniadu ar lwyfan cenedlaethol. Roedd Eric wedi hen ennill ei barch fel cystadleuwr a beirniad yn y maes. Bob blwyddyn byddai ef a Muriel yn mynd yn y garafan am y Nationals heblaw os byddai'r bencampwriaeth yn cael ei chynnal yn Iwerddon, yna byddai'r gwyliau blynyddol yn cael hoe fechan gan na ffansiai Eric groesi'r môr mawr efo'r garafan.

Tu ôl i'r hwyl, yr heria a'r hapusrwydd, roedd swildod a phreifatrwydd. Doedd dim sŵn mawr ond calon fawr, a honno ar brydiau yn ddwys. A heddiw dyma ni yn llawer rhy fuan yn ffarwelio yn llawn cariad ag un mor arbennig, unigryw ac annwyl. I ddiweddu rwy'n cyfeirio at gyfieithiad Cymraeg John Gwilym Jones o gerdd gan fardd anhysbys sy'n cwestiynu sut i fesur dyn. Heb os, buasai Eric wedi pasio'r prawf ag anrhydedd a theimlaf ei bod yn gerdd sy'n croniclo annwyl Yncl Eric yn berffaith.

Mesur Dyn

Pan gaiff dyn ei fesur, gofynnir gan Dduw
Nid sut y gwnaeth farw, ond sut y gwnaeth fyw.

Nid faint a wnaeth ennill, ond faint fyddai'n rhoi,
Ac a fyddai yn aros pan oedd eraill yn ffoi.

Nid beth oedd ei gred ond beth fyddai'n ei wneud,
A faint oedd e'n teimlo, nid faint allai'i ddweud.

Nid uchder ei feddwl, ond dyfnder ei ras
A'i gymeriad fu fewn, nid ei wên y tu fas..

Nid faint oedd y deyrnged gan bawb i hen ffrind
Ond faint deimlodd golled ar ôl iddo fynd.

Mae'n dda dweud na allai fyth golli'r un cwrdd,
Ond gwell dweud na throai 'run truan i ffwrdd.

Ac y bu yn oleuni mewn ambell i nos
A throchi ei hun i ddwyn cyfaill o'r ffos.

Ie, dyna'n y diwedd y modd y gwêl Duw
Pa enaid sy'n fawr a phan enaid sy'n fyw.

Manon Jones, Porthaethwy

Parhad DINORWIG

Diolch Dymuna Muriel, Dilys a'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Gwerthfawrogir yn fawr yr holl gardiau, blodau a'r rhoddion tuag at Ymchwil Cancr, Ambiwylans Awyr Cymru a thîm Irfon. Diolch i'r Parchedigion Christina McRae, John Matthews a Carol Roberts a'r Dr William Munro, yr organydd. I Manon hefyd am roi teyrnged i Eric. Diolch i Meinir, Cyfarwyddwr Angladdau, Dylan Griffiths, am eu gwasanaeth urddasol. Diolch yn fawr i bawb.

Eisteddfod yr Urdd Hwyl fawr i bawb fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod o fro yr Eco, yn gobeithio dod â gwobrau yn ôl i'r ardal. Cofiwch os na fu gwobr, y cystadlu sydd yn bwysig a pheidiwch â digalonni. Mae yna dro nesaf a gwell lwc. Mae'r cystadlu ynddo ei hun yn help am lwyddiant yr Eisteddfod

Tymor yr Arholiadau A ninnau erbyn hyn yn gweld diwedd yr arholiadau yn agosau, gobeithio am well tywydd i gael tipyn o fwyniant

a rhyddhad ar eu diwedd. Y mae yn rhywbeth y mae'r mwyafrif ohonom wedi gorfod ei wynebu ond, ar ddiwedd y dydd, fe fydd o werth mawr i chi i'r blynyddoedd a ddel. Dymunwn bob llwyddiant ichi a phan ddaw y canlyniadau fe fyddwch wedi anghofio am ddyddiau yr arholiadau. Ac os na fydd y canlyniadau yn beth oeddech wedi ddisgwyl, nid yw hyn yn ddiwedd y bydd, meddwl am drio eto, gan obeithio am well canlyniadau y tro nesaf. Pob lwc a llwyddiant ichi i gyd a gobeithio y gallwch fynd ymlaen hefo beth ydych eisiau ei wneud.

Cofion Ein cofion annwyl at Mrs Megan Morris yng Nghartref Plas Garnedd. Deall gan y swyddogion ei bod yn dal i fwynhau ei bywyd ac yn edrych ymlaen am y diwrnod mawr, dim ond ychydig ddyddiau eto na fydd y dydd mawr yma. Yn yr Eco nesaf gobeithio yn arw y cawn eich llongyfarch ar y dathliad.

Ar 11eg o Fehefin, fe fydd Mrs Morris yn 103. Oed mawr iawn ond mae hi wedi gofalu erioed am fwyta yn dda. Byddai wrth ei bodd yn gwneud pryd da o

fwyd iddi hi ei hun. Wedi galw yno lawer tro ac arogl da dros y tŷ. Yn falch iawn o'i gweld yn gofalu amdani ei hun.

Pen-blwydd Hapus iawn ichi pan ddaw y dydd mawr. Mae'n debyg y bydd Eirwyn a Marsli hefyd yn reit brysur ac yn cael mwynhau y pen-blwydd hefo chi.

Llawer o gariad gan hynny o Gymry ardal Dinorwig sy'n bod o hyd. Mwynhewch eich diwrnod mawr.

Cofion annwyl hefyd at rai sydd yn cwyno yn yr ardal, gan obeithio erbyn tymor yr haf y bydd gwellhad wedi dod.

Cofion annwyl at bawb sydd heb fod yn rhy dda ers peth amser bellach.

Y Tŷ Uchaf yng Nghymru

Yn yr Eco fis Mawrth fe fu imi sôn am y bobl a fyddai yn byw yn y bythynnod ar Lôn Garret. Hyfryd oedd, y nos o'r blaen, cael galwad ffôn gan un a fu yn byw ar y lôn yma o Wersyllt, Wrecsam. Gofynnais tybed faint oedd yn cofio am y bobl y bu imi sôn amdanynt yn yr Eco a finnau wedi anghofio yn llwyr amdano ac enwy ddynes sarrug

a oedd yn chwaer i Oliver. Dywedodd Emrys wrthyf mai chwaer i Owen Davies oedd yn byw yn Aelwyd Uchaf ydoedd ac mai Catherine Davies oedd y ddynes na allwn gofio ei henw. Mam i Oliver ydoedd ac yn byw yn y drws nesaf yn Aelwyd Bach. Daeth yn fyw i'r cof wedyn a chofiais mai Catrin Davies y byddai yn cael ei galw.

Emrys, gobeithio y caf faddeuant am anghofio amdanat ond yr wyt wedi gadael yr ardal ers chwe deg dau o flynyddoedd, ond braf iawn oedd cael yr alwad a bu llawer o sôn am yr hen amser. Diolch iti, Emrys, am yr alwad a braf oedd deall bod yr Eco yn cael ei ddarllen yn Wrecsam. Gan fod teulu ei ddiweddar wraig, Gwenda, yn dal yn yr ardal, cofia Emrys, os yn yr ardal byddaf yn falch iawn o'th weld. Cofia alw. Yr oedd yn dweud y byddai yn edrych ymlaen am y Sul er mwyn cael mynd i'r Eglwys i gyd weddio hefo'r addolwyr. Braf oedd clywed hynny, wrth gwrs. Diolch yn fawr iawn iti am yr alwad a'r cofiant am yr hen ardal. Yn Tan y Ffordd yr oedd Emrys a Hughie a'i dad a'i fam yn byw.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Sgiliau Newydd, Cyfle Newydd

CWRS NEWYDD: Medi 2018 - Awst 2019

Eisiau gweithio gyda plant ifanc?
Cyfle i ennill cymhwyster Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn rhad ac am ddim mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

Cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymuno yn y cynllun hyfforddi arbennig yma.

Dyddiad cau: 01/06/2018

01970 639 601
www.meithrin.cymru/lefel3
www.twitter.com/dipl3gofalplant
lefel3@meithrin.cymru

Acemir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government

#MeithrinMiliwn



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Dirgelwch y Garreg Fedd

Derbyn llythyr o Benygroes gan Angharad Tomos fu cychwyn yr helfa hon am deulu Bron Elidir, Dinorwig. Roedd carreg fedd wedi ei darganfod mewn seler banc ym Mhenygroes yn coffau Catherine Jane Parry, merch William ac Elizabeth Parry, Bron Elidir, Dinorwig, a fu farw yn Llundain ym mis Mawrth 1898. Beth oedd y cysylltiad rhwng Dinorwig, Llundain a Phenygroes? A sut y daeth carreg fedd merch a fu farw yn Llundain i seler banc ym Mhenygroes? Dyna fynd ati i chwilio hanes teulu Bron Elidir.....

Yn yr holl adroddiadau papur newydd am aelodau'r teulu, rhoddir Bron Elidir yn enw'r cartref, ond nid ydynt yn ymddangos yn y cyfeiriad hwn mewn unrhyw gyfrifiad!

Yng Nghyfrifiad 1871 roedd William Parry (genedigol o Landwrog), ei wraig Elizabeth (genedigol o Gaernarfon), a'u plant Evan, Catherine Jane, William a Moris (oll yn enedigol o Landdeiniolen) yn byw yn Nhŷ Ddewi, Dinorwig. Roeddent yno hefyd yn 1881, ar wahan i Moris, a fu farw'n blentyn ifanc. Galwedigaeth William Parry oedd 'slate examiner' yn 1871 a 'quarry agent' yn 1881. Rywdro yn y blynyddoedd dilynol mae'n amlwg fod y teulu wedi symud i Bron Elidir. Pan fu William Parry farw ym mis Mawrth 1888 yn 78 mlwydd oed, rhoir ei gyfeiriad fel Y Gerlan, Bron Elidir, a dywedir iddo fod yn oruchwyliwr yn y chwarel am 28 mlynedd.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ym mis Awst, llongyferchir Evan Parry, y mab, ar dderbyn £50 y Royal Whitworth Exhibition am 3 blynedd er mwyn astudio yn y Normal School of Science, Royal School of Mines yn Llundain. Mae'n amlwg iddo gymhwyso yno, oherwydd pan briododd yn 1895 mae'n cael ei enwi fel Evan Parry BSc AJEE (ac eto fel 'mab y diweddar William Parry, Bron Elidir'). Ei wraig oedd Margaret Elizabeth Hughes, merch i feddyg Ysbyty'r Chwarel. Erbyn 1901 mae Evan a'i wraig yn byw yn 10 Fitzgerald Road, Mortlake, Surrey gyda'i mab deufis oed, Evan Sidney. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach yn 1911 mae'r teulu wedi symud i 54 East Sheem Avenue, Llundain. (Mae Margaret Ann Roberts o Landdeiniolen, yno'n forwyn). Galwedigaeth Evan yn y ddau gyfrifiad yw 'electrical engineer'. Mae posibilrwydd felly fod Evan wedi aros yn Llundain ar ol gorffen ei gwrs coleg tua 1891.


Roedd ei chwaer, Catherine Jane, hefyd yn Llundain, oherwydd yno ym mis Mawrth 1898 y bu farw.

Tan y Garret

Mae'r erthygl am Dan y Garret, Dinorwig wedi ennyn cryn dipyn o ddiddordeb – ac ymateb; y diweddaraf o Awstralia, a hynny gan un o ddisgynyddion y teulu. Brian Bruce, mab yng nghyfraith Harri ac Elizabeth Lewis a gysylltodd efo'r "Eco". Mae'n briod â Gwyneth, a ymfudodd i Awstralia gyda'i rhieni yn 1969. Cyn gadael ardal Dinorwig roedd y teulu'n byw ym Mryn Sardis. Roedd mam Harri Lewis, sef Catherine Roberts wedi ei geni yno a phriodi efo Joseph Lewis cyn symud i Dan y Garret.

Credir mai dyma'r teulu olaf i fyw yn Nhan y Garret.

Mae gwybodaeth eithaf manwl gan deulu Awstralia am eu hachau yn ardal Dinorwig, ond maent yn holi pwy sy'n berchen Tan y Garret erbyn heddiw. Dyna'r cais felly i chi ardalwyr Dinorwig (neu du hwnt). Eiddo pwy yw Tan y Garret a'r ychydig dir oedd yn gysylltiedig ag ef?



Roedd William, y brawd ieuengaf hefyd yn Llundain. Roedd yntau yn 'electrical engineer', ond does dim cadarnhad ynglŷn â ble cymhwysodd. Digon posib iddo ddilyn ei frawd i'r Royal School of Mines. Pan briododd William yn 1899 gyda Grace Mary Jones yng nghapel Engedi, Caernarfon, mae'r adroddiadau papur newydd yn gymysglyd ynglŷn â'i gyfeiriad – unai Summerdale neu Sunnydale, Fitzgerald Avenue, Mortlake, Surrey. Tybed a oedd yn byw gyda'i frawd? Mae'r tebygrwydd yn y cyfeiriad yn awgrymu hynny. Yn dilyn ei briodas, sefydlodd y pâr priod yn 37 Aschurch Park Villa, Hammersmith, Llundain. Yno hefyd yn 1901 roedd ei fam weddw, Elizabeth (73 oed), a chwaer Grace, sef Eleanor. Bu William Parry farw yn Ebrill 1907 (eto 'mab y diweddar William Parry, Bron Elidir'). Roedd ei fam weddw yn dal yn fyw bryd hynny. Nid oedd plant gan William a Grace Parry.

Ym mis Ionawr 1889 mae Elizabeth Parry yn rhoi gorchymyn i gynnal ocsiwn ar holl gynnwys Bron Elidir – lai na blwyddyn wedi marw ei gwr, William Parry. Chwiliais drwy gyfrifiad 1891 am Ddinorwig, ond doedd neb o'r teulu'n byw yno. A oeddent eisoes wedi symud i Lundain ar ôl Evan, y mab hynaf? Methais – hyd yn hyn, a lleoli unrhyw un o'r teulu yng nghyfrifiad 1891.

Mae'n ymddangos felly fod y teulu cyfan wedi symud i Lundain.

Yno yn 1898 y bu farw Catherine Jane, ac yno mae'n fwy na phosib y claddwyd hi. OND, mae dirgelwch y garreg fedd yn parhau. Ble yn Llundain y claddwyd Catherine Jane? A sut y daeth y garreg fedd i Benygroes?

POSH PAWS

TACLUSO CWN

Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8yb-4yp

Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen

(01248) 671382 • 07935324193

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng

7.00pm ac 11.00pm

Plismon a ‘sbesials’ Bethel.....

Roedd y llun wedi ei roi yn fy mocs llythyrâu, a’r unig wybodaeth ynghlwm oedd mai PC78 Hubert Roberts sydd yn y llun, a bod y ‘sbesials’ i gyd yn byw ym Methel. Y dyddiad yw 1944. Roedd yr un a’i postiodd wedi anghofio rhoi ei h/enw, felly cysylltwch er mwyn i mi gael dychwelyd y llun. Yn y cyfamser, os oes rhywun o’r darllenwyr efo mwy o wybodaeth am y rhai yn y llun, rhochw wybod.



Ruth Williams, organyddes Capel Ysgoldy.....

Mae’r diddordeb yn hanes Alafon wedi ysgogi sawl un i gysylltu – a diolch i Huw Hughes am godi’r sgwarnog ddiddorol – sy’n dal i redeg!

Ymddangosodd y llun – er cof am Ruth Williams, Rhiw Goch – yn y golofn bysgota y mis diwethaf, gyda’r ymholiad amdani. Roedd yn eithaf di-drafferth cael gwybodaeth sylfaenol amdani ar y Cyfrifiadau, ond yn fwy trafferthus cael gwybodaeth am ei rhieni, a pham nad oedd wedi ei magu ganddynt. Cafodd ei geni yn 1887, yn ferch i William Richard Williams a’i wraig, Mary Ann (Jones yn wreiddiol), a briododd flwyddyn ynghynt. Ond erbyn 1891 roedd Ruth (4 oed) yn byw yn Rhiw Goch gyda Morris a Ruth Thomas, cwpl di-blant, hanner cant oed. Mae Ruth yn cael ei disgrifio fel “adopted daughter”. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach yn 1901, a hithau’n bedair ar ddeg oed, mae Ruth yn parhau yn Rhiw Goch, ond erbyn hyn yn “niece” ac yn “student”. Mae’r ail ddisgrifiad o leiaf, yn gywir, oherwydd caiff Ruth Williams, Clwt y Bont, ei rhestru yn 1900 fel un o ddisgyblion cyntaf Ysgol Brynrefail.

Bu Ruth Thomas farw yn 1910 yn 70 mlwydd oed. Cyfansoddwyd englyn ar ei marwolaeth gan Alafon:

Tawel trwy’r ymwaed diwyd – a fu

Tawel trwy faith adfyd;


Dwl ei haf, tawel hefyd

Delw o bwyll wrth adael byd.

Flwyddyn yn ddiweddarach, yng nghyfrifiad 1911, dim ond Morris Thomas a Ruth Williams sy’n byw yn Rhiw Goch. Diddorol nodi fod Morris yn yr adran sy’n holi am iaith y preswlydd yn ysgrifennu “dim ond Cymraeg”, ond mae Ruth (sy’n cael ei galw yn Ruthie am rhyw reswm), fel cyn-ddisgybl Ysgol Bryntrefail, yn rhugl yn y ddwy iaith. Mae’n ymddangos mai Ruth bellach sy’n gofalu am yr henwr ac am wahanol oruchwylion y tyddyn. Yn 1891 ac 1901 roedd Morris yn cyflogi morwyn.

Yn Rhiw Goch y bu Ruth am weddill ei bywyd, a bu farw ar y Sul cyntaf ym Medi 1929 yn 42 oed. Ceir paragraff byr yn Yr Herald Cymraeg yn ei disgrifio: “Yr oedd yn gymeriad tawel a chymeradwy gan bawb, ac yn aelod selog o eglwys Ysgoldy lle bu’n organyddes am flynyddoedd.” Fe’i claddwyd ym mynwent Macpelah, gyda’r Parch R.M.Jones, Glasgoed yn gwasanaethu.

Ac yn yr adroddiad hwn am ei marwolaeth y ceir y wybodaeth am ei rhieni: “... unig ferch Mr Williams a’r ddiweddar Mrs Williams, Plas Rhiw.” Roedd ei rhieni ym Mhlas Rhiw – ar y terfyn a Rhiw Goch, o 1891 ymlaen, gyda’u meibion Robert (ddwy flynedd yn



ieuengach na Ruth), a Richard (bedair blynedd yn ieuengach). Ond roedd merch arall – Maggie, oedd yn 6 oed yn 1901, ond nad yw wedi ei chofnodi yn 1911. A oedd wedi marw’n blentyn tybed? Beth yn hollol oedd perthynas deuluol Ruth Williams a’r cwpl yn Rhiw Goch? A gafodd ei henwi ar ol Ruth Thomas? Oedd hi’n wirioneddol yn nith i Morris neu Ruth? Roedd William Richard a Mary Ann, ei rhieni, wedi eu geni yn Llanddeiniolen. Felly hefyd Morris Thomas, a fu byw yn Rhiw Goch gydol ei oes. Ond un o Fangor oedd Ruth Thomas. A phwy tybed fu’n gyfrifol am y llun a’r coffa i Ruth a ddarganfuwyd yn Llwyn Iorwg? Fel arfer, mwy o gwestiynau nac o atebion.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro’r “Eco”, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

BETHEL

AELWYD YR URDD

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i aelodau Cyngor Cymuned Llanddeiniolen am rodd o £150 tuag at gostau teithio aelodau'r gangen fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Yr Urdd yn Llanelwedd eleni.

Mae tîm rygbi oedran ieuencid y gangen wedi cyrraedd y rowndiau terfynol yn Niwrnod Chwaraeon Genedlaethol yr Urdd draw yn Aberystwyth mis nesaf.

CYDYMDEIMLO

Roedd y newyddion pentref wedi mynd i'w wely mis diwethaf felly ni chofnodwyd marwolaeth Eiriona Jones, Bro Rhos gynt. Yn enedigol o Drefor, merch boblogaidd iawn oedd Eiriona, parod ei chymwynas a'i sgwrs. Rhoddodd flynyddoedd o wasanaeth fel cogyddes yn Ysgol Bethel. Yn y cyfnod diweddar treuliodd gyfnodau lu yn yr ysbyty. Cydymdeimlwn a'i theulu yn eu colled.

YMADAEL

Yn dilyn arhosiad yn yr ysbyty mae Margaret Williams, Llanddwyn (Tŷ Capel Cysegr gynt) wedi ymadael â'r pentref. Un a'i gwreiddiau'n ddwfn yng Nghlannau Merswy oedd Margaret ac nid oedd yr acen a'r hiwmor byth yn bell o dan yr wyneb. Bu Margaret a Dafydd Williams yn' bobol tŷ capel' arbennig i ni yn y Cysegr. Bu'r ddau hefyd yn gefnogol iawn i fywyd cymdeithasol a diwyllianol y pentref boed yn gôr neu gymdeithas. Bu colli Dafydd yn ergyd drom i Margaret, ac yna rhai blynyddoedd ymlaen colli ei mab Philip. Bellach nid yw'r enw Llanddwyn uwch y tŷ ym Mhro Rhos, ac mae Margaret wedi symud i fod yn agosach at ei dau fab, Stephen a Robert. Bydd colled ar ôl Margaret a diolchwn iddi am sawl cymwynas i ni fel cymuned yma ym Methel. Os oes rhywun eisiau cysylltu â hi rhyw dro y cyfeiriad newydd yw – 28 Park House Mews, Congleton Rd., SANDBACH, Swydd Caer CW11 4SP.

ADDYSGIADOL

Llongyfarchiadau i Llinos Angharad, Beddgelert (Prthi, gynt) a Huw Gwyn (Stad Tan-y-cae) ar gael eu apwyntio yn gyd Bennaethiaid yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes dros gyfnod secondiad y Pennaeth presennol.

PARCIO

Y mae'r pwnc llosg yma yn dal i rygnu ymlaen. Wrth reswm mae pawb eisiau parcio o flaen eu tai doed a ddel. Anodd gweld ateb achos gyda mwy o adeiladu cynyddu wnaiff y nifer o foduron. Yn sicr, mae yna anghydbwysedd yma ym Methel ar hyn o bryd rhwng tai annedd a chyfleusterau. Braf fuasai gweld mentr yn denu ambell i fusnes yma, neu adeiladau i gefnogi y rhai sy'n rhedeg busnesau adeiladu, trydanwyr a.y.y.b o'u cartrefi. Ar fater y parcio oni ddylsai Cyngorau bellach ddynodi darnau tir penodol yn ein pentrefi i greu meysydd parcio. Heb bolisi pendant ni chymer fawr o amser i'n pentref foddï dan foduron ar balmentydd a llecynau gwyrdd ar odre'r ffyrdd,

MOR AGOS

Mae'r gyfres deledu i blant Deian a Loli bellach ymysg y mwyaf poblogaidd. Yn ddiweddar bu cyfweiliadau i ddewis dau blentyn i chwarae y prif gymeriadau. Llongyfarchiadau i Jac Lloyd-Shipton a ddaeth mor agos i gipio'r rôl.

CLWB BRO BETHEL

Yn y cyfarfod diwethaf yr archeolegydd Iwan Parry, Penisarwaun gynt oedd y siaradwr gwadd. Rhoddodd fraslun o rhai o'r 'cloddio' y bu'n ymwneud a hwy yma yng Nghwynedd. Soniodd am yr hyn a ddarganfyddwyd yn rhoddi tystiolaeth o arferion byw ein cyn-dadau yn ôl i oes y Celtiaid. Soniodd hefyd fel roedd ei gwmni yn cael eu cyflogi gan awdurdodau i wneud archwiliad o diroedd ble mae'n fwriad i adeiladu arno. Yn aml mae rhai o'r cynlluniau yma uwch fannau o bwys hanesyddol.

Dosbarthwyd ffurflenni ar gyfer y trip blynyddol i gloi'r tymor. Y diwrnod pwysig yw Dydd Mawrth, Mehefin Sed. Eleni y 'stop' cyntaf fydd Conwy. Yna, ymlaen ar y tren o Landudno i Flaenau Ffestiniog. Cofiwch fod y daith hon yn rhad ac am ddim i rai dros 60 oed drwy ddefnyddio y tocyn bws rhad. Ymlaen ar y bws wedyn o Stiniog i Borthmadog cyn stopio am bryd o fwyd yn Nhafarn yr Afr, Glandwyfach.

COFIWCH

Am y sedd wâg ar y Cyngor Cymuned. Os na fydd enwebiad, yna bydd gofyn i'r aelodau gyfethol.

CLWB PÊL-DROED BETHEL

Mae'n fisoedd bellach ers i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen gyfrannu £1000 tuag at gost trosglwyddo Cwt Newid o ardal Dolgellau i Fethel. Mae nifer wedi cyfeirio at segurdod unrhyw ddatblygiad parthed yr adeilad yma. Derbynais e-bost gan y Cyng. Sion Jones yn taflu rhyw oleuni ar y mater. Fel nad oes unrhyw amwysedd mi ddyfynaf y neges yn ei grynswth.

"Fel y gwyddoch, cwblhawyd y trosglwyddiad i Fethel y llynedd. Ers hynny rwyf wedi bod mewn cyswllt gydag Adrannau Cynllunio a Gorfodaeth y Cyngor Sir i geisio sortio allan problemau blaenorol. Nid oedd yr hen gabannau wedi derbyn unrhyw ganiatad cynllunio. Erbyn hyn mae'r ddwy adran yn fodlon gyda bwriadau'r clwb parthed y safle., ac wedi derbyn cais cynllunio. Bydd hyn yn golygu symud yr hen gabanau (gwyrdd) o'r safle yn y 6 mis nesaf. Eisioes gwnaed cytundeb gyda chlwb Mountain Rangers i'w derbyn . Gofynir am ganiatad i sgrinio o gwmpas yr adeilad newydd, a gwaith gwynebu ar y maes parcio.

Y rheswm dros osod y caban newydd yn y safle presenol yw perchnogaeth tir. Capel Cysegr yw perchnogion y tir y gosodwyd yr hen gabanau arnynt. Byddai ail-leoli y caban newydd yr ochor arall i'r maes parcio yn creu problemau i'r tai cyfagos. Mae perchnogion Tŷ Capel Cysegr yn pryderu am y datblygiad, a bydd y proses o ymgynghoriad yn dechrau yn fuan.

Mae hwn yn ddatblygiad gwych i G.P.D. Bethel ac yn gam ymlaen i ddatblygu tîm Hŷn gyfochr â'r timau Ieuencid/ Merched.

Yn amlwg, mae'n cael ei gefnogi gan y gymuned ac edrychwn ymlaen i dderbyn llythyr o gefnogaeth parthed y datblygiad gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen dros y cais cynllunio. Os oes unrhyw gwestiynau pellach cysylltwch â'r Cyng. Sion Jones ar 07565306965."

PRIODAS

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Sion Garth Owen, Dryslwyn a Rachel Wills o Bontnewydd ar eu priodas yng Nghapel y Cysegr ar Mai 24. Saer Coed yw Sion ac athrawes yw Rachel. Byddent yn cartrefu yn Y Groeslon.

NOSON HWYLIOG

Diolch i Ifan Rowlands a'i ffrindiau am drefnu noson lawen yn y Neuadd Goffa i godi arian at y clwb pêl-droed ieuencid. Daeth y parti dynion Tri Gog a Hwntw draw o ardal Llanuwchllyn. Cawsom noson yn frith o ganu gwerin, pop a hen ffefrynnau gyda'r gynulleidfa yn ei morio hi gyda'r parti. Noson eistedd yn ol a mwynhau.

Merched y Wawr Cynhaliwyd cyfarfod nos Fercher yn festri y Cysegr. Croesawyd Yr aelodau gan Liz, llongyfarchwyd Gwenan, merch Mabel, ar ei dyweddiad â Rob; hefyd Pat Millican yn nain am y tro cyntaf. Laura ei merch wedi cael merch. Da oedd clywed fod Llinos, merch Lynwen, wedi cael swydd pennaeth yn Ysgol Dyffryn Nantlle, ac am lwyddiant Bedwyr, wŷr Gwyneth, fu yn brysur yn beirniadu defaid i'r Ffermwyr Ifanc. Hefyd roedd sgwrs ddiddorol gan Dewi, mab Glenys, ar BBC Cymru Fyw, werth gwranddo arni.

Cafodd y tîm bowlïo deg noson dda yn y gystadleuaeth yn ddiweddar, pawb wedi mwynhau.

Bydd bws ein taith diwedd tymor yn cychwyn o'r gwaelod am 6.00 nos Fercher, y 13 o Fehefin, arian a dewis bwyd i Rhian os ydych heb wneud.

Cawsom noson ddiddorol yng nghwmni Carol Llywelyn (Welsh Lady Preserves). Rhoddodd hanes sefydlu y cwmni gan ei mam a'i thad yng nghyfraith yn 1966, mae'r ffatri yn dal yn Bryn, ger y Ffor, ac maent yn cyflogi tua 22 ac yn gwneud cynnyrch i sawl busnes gael eu label eu hunain, yn ogystal â gwerthu eu cynnyrch yn uniongyrchol i siopau. Cafwyd cyfle i brynu cynnyrch ar ddiwedd y noson.

Diolchwyd gan Mair Price, ac enillwyd y raffl gan Gwyneth J. ac Annwylyd.

NEWYDDION O'R YSGOL



Grwp Eco yr ysgol wedi arbed 56.85 tonnelli o nwy carbon drwy ddefnyddio cardfwrdd oedd yn fwy ffafriol i'r amgylchedd. Roedd hwn yn amlwg dros gyfnod y Nadolig ble roedd cryn ddefnydd wrth lunio sawl cerdyn.



YMGYRCH BIG PEDAL. Mae'r ysgol yn gefnogwr brwd o'r prosiect yma gan Sustrans Cymru. Y gobaith y war i blant a'u rhieni ddefnyddio beic yn hytrach na modur yn gludiant dyddiol i'r ysgol. Eleni roedd yr ysgol yn yr ail safle o ran rhif ymysg ysgolion Gwynedd a gymerodd ran. Fel atodiad i hyn roedd teulu Hefin a Sarah, Saron gyda'i plant Cadi, Griff a Leia wedi ymddangos ar raglan S4C Ffit Cymru i gefnogi ymdrech yr ysgol.

YMSON PLENTYN O GWM CELYN

"Mi ddaw y floedd o lawr grisau mewn pum munud. Ar y gair dyna lais mam yn gweiddi arnai ddeffro, codi a pharatoi am ddiwrnod arall yn yr ysgol. Bore rhewllyd a fawr o amynedd codi. Does fawr ddim byd i edrych ymlaen ato bellach. Mae'r dyddiad yn agoshau ac mae tristwch ar wynebau y trigolion yn dod yn fwy amlwg bob dydd. Be' fedra i wneud? Pwy fuasai fy gwrando ar ferch ddeg oed o Gapel Celyn? Pa effaith fuasai fy nghwih llygodan eglwys i yn gael ar bobol dinas fawr Lerpwl? Wrth i mi adael am yr Ysgol mi welais lori fawr yn parcio o flaen y cwt moch. Dyna hi bellach. Y dodrefn yn mynd heddiw. Hen dresel fy hen nain yn diflannu'n ddarnau i focsus ddaeth o Siop Nel. Fawr gwell yn yr ysgol. Miss Huws yn rhwygo a thaflu hen lyniau a gwaith plant y blynyddoedd. Dwi'n siwr fod dagrau yn llifo i lawr ei boch!


Hwn oedd y Gwasanaeth olaf yn yr ysgol heddiw. Wedi cael blynyddoedd o ddymuno i gael yr un, ond heddiw buaswn yn gwneud unrhywbeth i gael gwasanaeth bob dydd o'r wythnos yn fflapian i bob cyfeiriad. Mi roedd Nel wedi byw yn y Cwm ers na mi i symud pan ddaw'r diwrnod. Dwi'n dal i ofyn, 'Pam ni?' Mi fydd hi'n anodd iawn dychmygu dim Capel Celyn, ond fel mae pobol y Cwm yn dallt rwan, llais gwan yw llais Cymru i gymharu a Lloegr. Felly does dim gobaith mul arnom ni i gael ein dymuniad."

Diolch i Ella a gweddill dosbarth Gwyrfa'i am godi calon. Cymerais y cyfle i'w hannog i gystadlu a chefnogi ein eisteddfodau bychain lleol fel Bethel, Gwaun Gynfi, Bontnewydd a Llanllyfni sy'n rhoddi cyfleuon i'r plant yma feithrin eu doniau.

Richard Llwyd Jones



YRARDD: Mae'r dam tir yma yn adnodd bwysig i'r ysgol, a bellach mae hi ar ei newydd wedd. Diolch i Gwyn Elwyn am dorch'i ei lewys a gwirfoddoli i gynllunio yr ardd ar ei newydd wedd. Diolch hefyd am nawdd busnesau Morrisons, Idris Morris a'r Brodyr Hogan wrth gyfrannu adnoddau ar gyfer yr ardd. Bu aelodau Bl. 4 yn aros noson ym Mhlas Menai a chafwyd digon o gyfleuon i fanteisio ar yr adnoddau Dŵr a Dringo yno.



Daeth dau ymwelydd i siarad gyda'r plant. Chwaraewr rygbi RGC Carwyn ap Myrddin yn trafod ei waith fel Warden yr Wyddfa. Daeth swyddog o'r Gwasanaeth Tan draw i rybuddio am y peryglon sy'n arwain at greu tanau sy'n dinistrio nid yn unig adeilad ond hefyd yn aml yn arwain at anafu neu farwolaeth unigolyn.

TYSTEB :Cofiwch fod y dysteb parthed Ymddeoliad y Pennaeth wedi ei hagar. Gellid danfon unrhyw gyfraniad i'r Ysgrifenyddes yn yr ysgol.

O enau plant bychain

Ddechrau'r mis roeddwn yn Ysgol Bethel yn gwirfoddoli, ac yn digwydd bod , Tryweryn oedd testun prosiect y dosbarth. Cefais fy nharo gan ymateb y plant, yn eu holi a thrafod. Yn y fan a'r lle penderfynais noddi cystadleuaeth i'r plant. Y dasg oedd cyflwyno Ymsion yn ymwneud a chyfnod olaf y Cwm cyn dechrau ar y gwaith dinistriol a hynny trwy lygaid plentyn. Cafwyd ymateb rhagorol gyda defnydd aeddfed iawn o iaith ac idiom. Yr oedd hyn yn cadarnhau penderfyniad ymchwiliad gan Estyn yn ddiweddar i safon defnydd y Gymraeg ar lafar ac ysgrifenedig yn Ysgolion Cymraeg naturiol a phenodol.

Gwaith anodd oedd beirniadu ond dyfarnais y wobr gyntaf o docyn llyfr i Ella Williams, 9 oed o Seion yn ddisgybl yn nosbarth Gwyrfa'i. Cefais ganiatad Ella a'i hathrawes i gyhoeddi'r darn.

TUDALEN YR IFANC

Ble aeth y chwedlau?!

Pan aeth y rhifyn hwn i'r wasg roeddwn i, fel traean o'r band Plu, yn paratoi i gynnal gweithdai gyda phlant blwyddyn 6 ysgolion cynradd dalgylch Brynrefail. Pwrpas y gweithdai yw rhoi'r cyfle i blant pob ysgol ddod i adnabod ei gilydd cyn cymryd y cam mawr o symud i'r ysgol uwchradd ym mis Medi. Pwysig iawn felly! Ond beth dynnodd fy sylw at y cynllun newydd oedd nid yn unig y cyfleoedd i blant wneud ffrindiau a chysylltiadau, ond y thema: Hunaniaeth leol. Beth sy'n gwneud y bobl ifanc yma'n gyffredin i'w gilydd?

Felly dyma ni'n mynd i baratoi ac ymchwilio i hunaniaeth leol, hen storïau, chwedlau, tarddiad enwau llefydd, a'r rhinweddau hynny sy'n gwneud bro'r Eco yn beth ydy hi rŵan. Ond gresynu oeddwn, yn y pen draw, wrth siomi ar fy anwybodaeth fy hunan! Doedd gen i ddim clem am 'hen Rhita Gawr na Llanciau Eryri felly es ati i bori trwy lyfrau fel 'Snowdonia Folk Tales' a'r 'Welsh Fairy Book' a'u tebyg. Prin iawn oedd y chwedlau o Ddyffryn Peris i'w gymharu â'r dyffrynnoedd cyfagos a sicr llawer yn llai nac ardaloedd Meirionnydd a Dyffryn Conwy.

Merched Yn Neud Miwsig

I unrhyw ffans o'r SRG mae'r linell 'Merched yn 'neud gwallt ei gilydd' yn gyfarwydd i bawb fel un o lyrics enwocaf y Gorky's Zygotic Mynci. Ond beth am 'Merched yn Neud Miwsig'? Dyma gynllun newydd Maes B mewn cydweithrediad â Chlwb Lfor Bach i annog mwy o ferched i ymwneud â cherddoriaeth Gymraeg.

Mae'r gweithdai arbennig yng Nghaernarfon a Chaerdydd ar gyfer merched sy'n ymddiddori mewn cerddoriaeth cyfoes yng Nghymru ac yn gyfle i ferched 16-25 oed drafod syniadau a meithrin sgiliau newydd, a'r nôd yw ysbrydoli a dod a thalent newydd i lwyfannau cerddoriaeth Cymru.

Felly, ble aeth y chwedlau?! Dyna fy nghwestiwn. Pam fod cyn lleied o chwedlau yn tarddu o'n dyffryn hyfryd ni? Ai dylanwad diwydiant (llechi a thwristiaeth) a'r bobl a ddaeth gyda nhw sydd wedi tawelu'r storïau a basiwyd o genhedlaeth i genhedlaeth? Ydy'r datblygiadau hyn, eu hunain, yn rhan o'n hunaniaeth a'n chwedloniaeth ni? Wn i ddim yr ateb. Ond un peth sy'n sicr, bydda i'n parhau i ddarllen Chwilota yn yr Eco i ddysgu mwy am hanes y fro!

Bydd y gweithdai yn cael eu harwain gan Heledd Watkins, Anya Bowcott a Elin Meredydd. Bydd Heledd, prif leisydd HMS Morris, yn cynnal sesiwn ar sut i fynd ati i ysgrifennu a recordio cerddoriaeth, gyda Anya Bowcott, DJ o Ogledd Cymru sydd bellach yn byw yn Glasgow, yn cynnal gweithdy ar sut i DJio. Os mai celf yw eich cryfder yn hytrach na cherddoriaeth, bydd yr artist a perfformwraig Elin Meredydd yn cynnal gweithdy ar ochr gelfyddydol y sîn, gan gynnig cyngor ar sut i fynd ati i ddylunio posteri a chloriau albymau.

Felly os hoffech chi ddysgu mwy am sut i gynnal gigs, sut i fynd ati i recordio, DJio neu ddylunio posteri ewch draw i Galeri am ddiwrnod bythgofiadwy yng nghwmni rhai o ferched mwyaf cŵl a blaengar y sîn. Mae'n gyfle arbennig i gyfarfod merched eraill sydd â'r un diddordebau, a chreu rhwydwaith o gysylltiadau defnyddiol ar gyfer y dyfodol. Bydd y gweithdy yn cael ei gynnal yn Galeri, Caernarfon, dydd Sadwrn 23ain Mehefin, 10:00-17:00. Pris tocyn yw £5, sy'n cynnwys cinio a gweithdai.

ADVANCED
AVW
VEHICLE
WORKSHOP

Arbenigwyr mewn ceir VW,
Audi, Seat, Skoda & Porsche


Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which?
Trusted trader

01286 673559

AVW
Bosch Service
Car Service
For everything
your car needs.

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.ffmpegia.com

Ysgol Gymuned Penisarwaun

Croesawyd Susan Williams a Catrin Hanson, Cynllun EFE, i gynnal Gwasanaeth bore Mercher, Mai 16eg. Diolch yn fawr iddynt am drefnu i ddod i'r ysgol o bryd i'w gilydd, roedd pawb wedi mwynhau.

Pnawn dydd Mercher, Mai 23ain, cafodd Bl 6 fynd i Ysgol Gwaun Gynfi i gymryd rhan mewn gweithdy cyfansoddi, celf ac actio gyda'r grŵp gwerin Plu. Roedd y gweithdy wedi ei drefnu fel rhan o'r prosiect pontio Cynradd Uwchradd.

Cronfa'r Pensiynwyr- Enillydd y bêl mis Ebrill oedd Efan Jac Roberts gyda rhif 20. Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau i Ianto Llwyd Jones ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i ti ar gyfer y dyfodol Ianto.

Dymuniadau gorau i Mrs Gwenda Jones, 11 Bryn Tirion, ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Gobeithio eich bod yn teimlo'n well, cofion gorau atoch.

Diolchiadau - Dymuna Ianto ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed.

Dymuna Gwenda ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Mae hi hefyd mor ddiolchgar

am yr holl ymholiadau a'r ymweliadau gan deulu, ffrindiau a chymdogion yn ystod ei salwch.

Cofion Mae Mrs Nannie Evans, 26 Bryn Tirion, wedi penderfynu ymgartrefu ym Mhlas Pengwaith Llanberis. Bydd ei chymdogion a'i chyfeillion yn gweld ei cholli yn arw iawn, mae wedi bod yn gymydog gwerth chweil am flynyddoedd lawer. Cofion gorau a phob bendith.

Gwellhad - Rydym yn falch iawn o wybod bod Mrs Catherine Williams, 20 Bryn Tirion, yn gwella ar ôl derbyn triniaeth yn yr Ysbyty yn Stoke. Mae bellach wedi symud i Ysbyty Eryri. Cofion gorau atoch.

Ysgol Sul Bosra Fore Sul, Mai 27ain, am 11.15 yb yng nghwmni aelodau'r Ysgol Sul ac aelodau a ffrindiau'r teulu bedyddiwyd Marged Annora, merch fach Cennin ac Aled Thomas a chwaer fach Nanw Grug. Gwasanaethwyd gan y Parch Marcus Robinson BD. Bu'n brofiad arbennig i aelodau'r Ysgol Sul o gael bod yn rhan o ddigwyddiad mor bwysig ym mywyd pob plentyn bach. Pob bendith i'r teulu. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn wedi'r gwyliau fore Sul, Mehefin 10fed.

Llongyferchir Heulwen a Deiniol, Bryn Eglwys, ar ddod yn nain a thaid am yr eildro.

Ganwyd merch fach i Rhian ac Urien, Anni Deiniol, chwaer fach i Myfi Deiniol, gor-wyres i Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt a nith fach arall i Mari Deiniol. Pob bendith i chi fel teulu.

Pwyllgor Eisteddfod Bentref Cynhaliwyd Noson Goffi ar nos Fercher, Mai 23ain, gyda stondinau, raffl a phaned. Bu'n gyfle i rannu Testunau'r Eisteddfod ac atgoffa pawb bod yr Ymarferion yn cychwyn nos Fercher, Mehefin 6ed, o 6 tan 7 i blant ac yna i oedolion. Hyderir y ceir Eisteddfod lwyddiannus eto eleni. Chwi oedolion, mae croeso i unrhyw un ymuno â ni.

Noson Lawen S4C Nos Sadwrn, Mai Sed, bu deugain o gefnogwyr ein Eisteddfod Bentref i'r Venue yn Llandudno i fwynhau gwledd o noson gydag artistiaid fel Caryl a'i merched, Eden, Steffan Rhys Hughes, Mared Williams, Gildas, Pedwarawd Pres a Chôr Ysgol Glan Clwyd gyda Dafydd Meredydd yn cyflwyno'r noson mor ddeheuig. Noson i ddathlu Caryl Parry Jones yn 60 oed. Cafodd Penisarwaun dipyn o sylw gan y Rheolwr Llawr! Dymunir diolch i Olwen Meredydd am gofio amdanom a diolchir i ffrindiau o Lanrug a Bethel a ymunodd â ni. Gwnaed elw sylweddol tuag at gronfa'r Eisteddfod.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Mai a'r enillwyr oedd


Rhian Jones, 3 Bryn Eglwys a Beca Jones, Carreg Eilian, Llanfairpwll.

Cynhelir 'Miri Haf' nos Iau, Gorffennaf 18fed, am 6.30. Bydd stondinau tombola, raffl a phaned a bisgedi. Bydd cŵn poeth ar werth am 50c. Trefnir gemau gan blant hŷn yr ysgol a threfnir rasys i'r gwahanol oeddrannau a ras o amgylch Llys y Gwynt a chyfle i daflu esgid law. Felly, ymunwch â ni yn y rhialtwch.

Cydymdeimlo Anfonir ein cydymdeimlad llwyrat at Gwen, Wyn, Sioned ac Ifan, Waun a theulu 'Eryri', Llanrug yn eu profedigaeth o golli Ceridwen. Priod cariadus y diweddar Hugh, mam annwyl Dewi, Mair a Gwen, mam yng nghyfraith hoff, nain ofalus a hen nain addfwyn a chwaer werthfawr. Ein cydymdeimlad â chwi oll fel teulu.

Y Diolch Mwyaf Fel darllenwyr cyson ac eiddgar o'r Herald Cymraeg, dymunir diolch o galon i Tudur Huws Jones, Gwern Helen, Golygydd yr Herald, am flynyddoedd o fwynhad. Diolch am yr erthyglau, llythyrau, lluniau, cerddi ac atgofion lu i'n difyrru. Pob dymuniad da hefo'r her newydd a diolch o galon.

Sefydliad y Galon Ni fydd casgliad o ddrws i ddrws yn cael ei gynnal gan Gangen Sefydliad y Galon, Caernarfon, eleni.



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394**

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal*

Ffoniwch [redacted] **ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)**



Ysgol Brynrefail



Cystadleuaeth Athletau Eryri, Mai 5ed 2018

Gwnaeth disgyblion Ysgol Brynrefail yn wych yn y gy-stadleuaeth hon yn ddiweddar! Perfformiodd pawb yn arbennig o dda ac roedd eu hymddygiad yn ardderchog trwy gydol y dydd. Enillodd 7 disgybl gystadleuaethau gwahanol yn ystod y dydd ac felly byddant yn mynd ymlaen i Ffeinal Athletau Cymru yn Nghaerdydd ar ben-wythnos ym mis Gorffennaf. Dyma'r gynrychiolaeth fwyaf o unrhyw ysgol ar draws Eryri!

Dyma'r disgyblion sydd yn bencampwyr Eryri ac yn mynd ymlaen i Gaerdydd –

Abbi Parkinson – 1af 800m 1af Picell

Georgia Parkinson – 1af ras gerdded 2000m

Brett Parkinson – 1af Picell

Elain Williams – 1af Naid Uchel

Cai Llwyd – 1af 800m

Natalie Meek – 1af 300m clwydi

Melody Haston Wilson – 1af Naid Driphlyg



Tîm dan 18

Mae gennym
wedi i'r tîm
ddiweddar.
Sgoriwyd tai
Cai Morgan.

Gwobr John Muir

Cafodd grŵp bychan o ddisgyblion blwyddyn 8 a 9 brofiad gwerth chweil trwy fynychu chwe diwrnod o weithgareddau awyr agored yn Nant Bwlch yr Haearn. O gerdded afon i gerdded o dan ddaear yn Mhenmachno, roedd y grŵp wedi mwynhau bob eiliad, gan ddysgu sut i weithio mewn tîm a gwneud penderfyniadau pwysig i arwain ei gilydd. Cafodd pob aelod 'Wobr John Muir', sydd yn cael ei adnabod fel gwobr Cenedlaethol. Da iawn hogia!

Pencampwyr Ysgolion Cymru



3 Ysgol Brynrefail yn Enillwyr Cwpan Cymru!

Dim ni dîm o enillwyr cenedlaethol yn Ysgol Brynrefail unwaith eto
pêl-fdroed dan 18 ennill Cwpan Cymru ar gae TNS, Amwythig yn
Cynhaliwyd y gêm ar ddydd Sul, Mai 13eg yn erbyn Ysgol Sant Teilo.
r gôl arbennig gan hogia Brynrefail sef Harri Tulliver, Owain Jones a
Y sgôr ar ddiwedd gêm llawn cynnwrf oedd 3 i 2. Gwych hogia!



ERASMUS a Chwrs Cymhwysedd Digidol – Ferrol, Ebrill 16eg – 20fed 2018

Cafodd Mr Dylan Parri, Athro Daearyddiaeth, Cerdd a TGCH yn yr ysgol gyfle i fynychu rhaglen Erasmus yn Sbaen yn ddiweddar.

Erasmus+ yw rhaglen yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer addysg, hyfforddiant, ieuenctid a chwaraeon.

Mae'n rhedeg am saith mlynedd, o 2014 tan 2020, ac estynnir gwahoddiad i sefydliadau ymgeisio am gyllid bob blwyddyn er mwyn cyflawni gweithgareddau creadigol a gwerth chweil.

Nod Erasmus+ yw moderneiddio addysg, hyfforddiant a gwaith ieuenctid ar draws Ewrop. Mae'n agored i sefydliadau addysg, hyfforddiant, ieuenctid a chwaraeon ar draws pob sector dysgu gydol oes gan gynnwys addysg mewn ysgolion, addysg bellach ac uwch, addysg i oedolion a'r sector ieuenctid.

Cofnodion eira olaf

A ninnau wedi cael eira ar y copaon dros y Pasg eleni, dechreuodd ambell un drafod pa mor hwyr y byddai'r cnwd gwyn yn aros cyn llwyr ddiplannu tan y gaeaf nesaf. Mae Les Larsen, Penisarwaun wedi cadw cofnodion ers trigain mlynedd, ac wedi eu trosglwyddo i ofal Llên Natur (dilynwch nhw ar Facebook os oes gennych ddiddordeb mewn unrhyw agwedd o fyd natur a bywyd cefn gwlad). A hithau bellach yn fis Mehefin, ac o bosib yr eira wedi mynd erbyn i chi ddarllen y rhifyn hwn o'r "Eco", dyma'r dyddiadau ble'r arhosodd eira ar Eryri hyd Fehefin!

1953 : 4 Mehefin	1956 : 7 Mehefin
1962 : 3 Mehefin	1963 : 2 Mehefin
1964 : 21 Mehefin	1969 : 10 Mehefin
1975 : 2 Mehefin	1977 : 10 Mehefin
1979 : 17 Mehefin	1980 : 1 Mehefin
1983 : 1 Mehefin	1986 : 14 Mehefin
1989 : 1 Mehefin	1995 : 6 Mehefin
2010 : 10 Mehefin	

Dair blynedd yn olynol yn y 1960'au – sef y gaeafau oer a achosodd i Lyn Padarn rewi ac i ddisgyblion Ysgol Brynrefail orfod aros dros nos yn yr ysgol oherwydd y tywydd garw. Ond unwaith yn unig yn y ganrif hon y cafwyd eira ym Mehefin. Arwydd bychan ond arwyddocaol efallai o gynhesu byd-eang?

Enwau Enwogion ar Gerbydau Trên yr Wyddfa

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cwmni Trên yr Wyddfa wedi enwi rhai o'u cerbydau ar ôl enwogion: Bryn Terfel, David Brailsford a Katherine Jenkins. Yn ystod mis Mai Shirley Bassey fu'n ymweld â Llanberis gan mai ei henw hi oedd y nesaf i'w roi ar un o'r cerbydau.

Rhoi sylw i enwogion o Gymru neu dynnu sylw at y Cwmni? A theg gofyn faint o gysylltiad sydd gan y ddwy ferch â'r fro? Oni fyddai'n syniad clodfori tipyn ar ein henwogion lleol? Pa well enw na cherbyd Hogia'r Wyddfa. Ac i gadw'r ddysgl yn wastad beth am Marged uch Ifan? Rwan, dyna i chi enw i ennyn trafodaeth ymhlith ymwelwyr!

Cywilyddus!



Does dim gair arall i ddisgrifio y person fu'n gyfrifol am waredu rhewgell ar ochr y ffordd rhwng Penisarwaun a'r Crawia, Llanrug. Pwy yn ei iawn bwyll fyddai'n gwneud y fflasiwn beth, yn enwedig o gofio fod gwasanaeth casglu ar gael gan Gyngor Gwynedd?

Cyflawni deugain mlynedd o wasanaeth



I'r Parch. Marcus Wyn Roberts ar gyrraedd y garreg filltir o 40 mlynedd yn y Weinidogaeth. Ers y dyddiau cynnar yng nghofalaeth Llanberis bu'r 'Cofi hwyliog' yn gaplan yn y Llynges, Caplan Diwydiannol ar Lannau Dyfrdwy a gwasanaethu yn ardal Wrecsam. Ef yw Ysgrifennydd y Sasiwn eleni. Bellach mae'n gweinidogaethu dros aelodau –a mwy – yn eglwysi y Cysegr, Capel y Rhôs, Caeathro a Brynrefail. Un parod ei gymwynas, sicr ei farn a chadarn ei ffydd yw Marcus. Nid yw ei weinidogaeth yn gyfyngedig i bedwar mur . Fel dywed y Llyfr Mawr mae ei fynydd gymwynas hefyd i 'ddefaid nad ýnt o'r gorlan hon.' Diolchwn iddo am ei wasanaeth parod, yn enwedig dros gyfnod y gaeaf diwethaf a frithwyd gan sawl colled ymysg ei aelodau. Fel hen win mae'n ymddangos bod y 'cic' dros yr Efengyl yno o hyd. Hir y parhaed hynny.

I gyfarch y Parch. Marcus Wyn Robinson ar gyflawni 40 mlynedd yn y Weinidogaeth

Ei law gref adeg llefain, – drwy'r gofid

daw'r gofal, gair cywrain.

Daw o'i fodd 'lef ddistaw fain'

ei Dduw agos dros ddeugain.

(R.L.L.J.)

Sefydliad y Merched Dydd Gwener, Mai 11eg, treuliodd yr aelodau brynhawn yn y Ganolfan, Llanberis, yn cymryd rhan yn y gem Boccia, Grŵp Eryri. Ymhlith nifer o dimau oedd yn cystadlu, llwyddodd tîm Brynrefail i fynd drwodd i'r rownd derfynol nos Wener, Mai 25ain, yn erbyn timau o'r pedwar grŵp yn y Ffederasiwn. Bu'r noson Bingo ar y thema 'Blodau' ar Fai 14eg yn llwyddiant a mwynhad i bawb.

Yng nghyfarfod mis Mai o'r gangen dan ofal y Llywydd, Pat Jones, cafwyd cyfle i drafod yr argymhelliad 'Mae Iechyd Meddwl yn Bwysig' ar gyfer Cyfarfod Blynyddol Sefydliad y Merched. Mae FfCSyM yn annog pob aelod i gydnabod pwysigrwydd cydraddoldeb rhwng iechyd meddwl ag iechyd corfforol ac i lobio llywodraethau am well cymorth ar gyfer iechyd meddwl. Cytunwyd gyda'r argymhelliad. Bydd aelod o Sefydliad Carneddi yn pleidleisio ar ein rhan a bydd tair o'r aelodau hefyd yn mynychu'r Cyfarfod Blynyddol yng Nghaerdydd.

Croesawyd Sonia Williams i'r cyfarfod i roi sgwrs ar 'Hyder mewn Lliw'. Eglurodd pa fath o liwiau a steil sy'n gweddu i wahanol

unigolion gan drafod colur, lliw gwallt a dillad. Trefnodd y Ffederasiwn brynhawn yng Nghastell Penrhyn i fwynhau blasu te. Carol Houston fanteisiodd ar y cyfle a chael mwynhau te prynhawn ardderchog. Bu tridiau ym mis Mai hefyd yn denu nifer o'r aelodau i fynychu cyrsiau undydd ym Mhlas Tan y Bwlch dan ofal Pat Jones ac Anita Long. Edrychir ymlaen yn awr at Drip Dirgel blynyddol y gangen ar Fehefin 21ain.

YREGLWYS BRESBYTERAIDD

- Oedfaon Mehefin am 5 yr hwyr
- 3: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
- 10: Parch Ddr Dafydd W Wiliam, Bodedern
- 17: Oedfa'r Aelodau
- 24: Parch Eric Jones, Bangor

Pigion Byd Natur
Mater o Fodoli



Ochr dde i'r lôn bost, tra'n teithio'n y car, fe'u gwelwyd yn pori'n hollol ddigynnwrf. Un deg a chwech ohonynt i gyd! ie, creaduriaid corniog a blewog ddigon!

Doedd bosib! Finna wastad wedi meddwl fod ar ga'l ran nifar yng nalgylch Eco'r Wyddfa dros hanner cant ohonynt; hynny, er gwaethaf gwybodusion, a fydd lythyru yn y wasg Seisnig, wrth iddynt fod yn dduwiau bychain, a fydd ymyrryd ac adrefnu byd Natur, groch lefain hyd nes ennyn sylw dros dro hyd y tro nesa, bod gwir angan gwtogi'n sylweddol ar eifr. Dydw i ddim yn rhyw sicr iawn os mai mympwy sy'n llechu wrth yr ymgyrch hwn i gael gwarad â'r hen afr grwydredig. Perthyn i'r anifail ran ei deulu dros bedair mil o flynyddoedd o gyd fodoli a chrwydro yma'n ein cwr ni o'r Ddaear. Ond beth ydy amsar, mwy nag hanas, d'wedwch? Does raid dethol chwaith. Mewn ysbaid fer, gall y gwn fferru

bywyd am byth, llonyddu popath a ystyrir yn 'bla' ac 'yn dipyn o niwsans glân'.

Twt! Twt! be ma ishio blwmin wel geifr d'wedwch? Dal ar gyfla felly i'w beio. Mae hynny mor hen â dyn ei hunan! Bai Rhai Un: malurio cloddiau (dydy dyn nag ychwaith ddafad yn cyflawni hynny!) ond arhoswch chwi Bai Rhif Dau, a'r pechod mwyaf anfaddeuol o'r cwbl, sef bod y bygyrs blewog yn b'yta bloda' ac yn lloccio'n ddi-halan ddail tendar planhigion a dyfir mewn gerddi. Dydy adar mwy nag malwod yn g'neud hynny siŵr braidd gen i! B'yta faswn inna' hefyd petawn i ishio bwyd. Hwyrach mai fi sy'n ei methu hi'n beth wmbroth, ond y mae nhw'n hurio tylluan neu ddwy tua thre' Cynarfon er mwyn gyrru gwylanod beiddgar ar ffo! Ond dyna fo, hw'rach, a d'wedaf hyn 'efo dagra' yn fy llyg'id, bod dyddiau'r bwganod brain ar ben ac yn perthyn bellach i ryw fachludoedd a fu!

A'r trydydd pechod ydy eu bod nhw'n drewi! Nid chwysu! Nage ogleuo! Ych-a-fi! Rhag cywilydd hefyd! Ie'n wirioneddol felly, difreintiedig ydyw'r geifr oherwydd perthyn iddynt y fythol-hawl i grwydro, ond ni welir mohonynt yn trafferthu 'molchi mewn baddonau!

Yn ein Cymru gyfoes, er yr holl ymdrechion i arall-gyfeirio ym myd amaeth, teg d'eud mai parhau i fod yn y lleiafrif bychan, h.y. ran eu niferoedd, y mae'r geifr a gedwir ar ffermydd a thyddynnod. Stori gwbl wahanol a geid yma'n y canol oesoedd. Hyd at y 18fed ganrif porai geifr ar diroedd mynyddig, ac roeddynt bron run mor niferus â defaid.

Rŵan am yr ergyd. Wyddoch chi mai un rheswm a gafwyd dros gau tiroedd comin yn nechrau'r 19fed ganrif ydoedd er mwyn magu cannoedd o ddefaid am eu cigoedd a'u gwlan, ac mi roedd hynny'n golygu cael gwared o'r geifr er mwyn cael gwneud lle iddyn nhw, a thynnu'r gwartheg o'r mynyddoedd i'r ffriddoedd. Amhosib ydoedd dal y cyfan oll o'r geifr, a'i gleuo hi o olwg yr amaethwyr a'r tyddynwyr i fyny am y creigiau a'r clogwyni ydoedd hanesion lled nifar dda ohonynt. Na! nid o'u gwirfodd, da chwi cofiwch hynny, daeth geifr i fyw ym mynydd-diroedd Eryri. Ni chawsant fawr o ddewis! Dim dewis o gwbl, dd'wedwn i. Dyn, a neb arall, a fu'n gyfrifol am hynny!

Ydy o'n bosib, y gwelir ymhlen llai na hyd yn oed gan mlynedd ddyffrynnoedd, hefyd gymoedd, ac mynydd-diroedd Eryri heb unrhyw afr ar eu cyfyl? Does raid i chwi wylltio na mynnu mynd fel mwnci i ben cratsh, chwedol fy niweddar gyfa'll o Gymro, sef Byrt Parri, Llanber. Dim ond gofyn a wnes i.

Ahoi! Ben Dant yn Morio Canu ar Daith Dewin a Doti

Bydd y sioe 'Ffrindiau'r Môr' sy'n cynnwys hoff ganeuon y plant yn y cylchoedd ar y thema, yn cael ei pherfformio mewn canolfannau ar hyd a lled Cymru fel rhan o daith Gŵyl Dewin a Doti gan Mudiad Meithrin ym mis Mehefin.

Amcangyfrif bydd y capten Ben Dant yn canu Ahoi! wrth oddeutu 8,000 o blant a'u rhieni wrth iddo hwylio i gyfeiriad mwy na dwsin o leoliadau gwahanol ar draws Cymru yn ystod y cyfnod 11-28 o Fehefin.

Bydd Ben Dant, sydd eisoes yn wyneb cyfarwydd i wylwyr ifanc CYW, yn canu 12 o ganeuon cyfarwydd sy'n ffefrynau i blant y cylchoedd Meithrin. Bydd y sioe yn cynnwys anthem arbennig Mudiad Meithrin 'Un Teulu Mawr' yng nghwmni Dewin a Doti, sef cymeriadau unigryw y Mudiad Meithrin, sy'n byw yn y Balalŵn fawr yn uchel yn yr awyr, ac sy'n wrth eu boddau'n gwibio i lawr i chwarae efo plant bach yn y cylchoedd meithrin ar hyd a lled Cymru a'u helpu a'u hybu i siarad Cymraeg.

Meddai Ben Dant:

"Ahoi ffrindiau! Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at godi'r angor a chodi'r hwyl yng nghwmni Dewin a Doti yr haf 'ma! Beth sy'n well na chwrdd â ffrindiau hen a newydd wrth deithio ar hyd a lled Cymru?"

Mae'r sioe yn addas i blant sy'n mynychu grwpiau Cymraeg i Blant, Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin, a Meithrinfeydd

Dydd y Mudiad. Mae'r daith yn cael ei threfnu gan Mudiad Meithrin gyda chefnogaeth a nawdd gan S4C ar flwyddyn dathlu pen-blwydd Cyw yn 10 oed.

Mae CD o'r holl ganeuon a phhecyn gweithgareddau wedi cael ei hanfon allan i bob grŵp Cymraeg i Blant, cylch Ti a Fi, Cylch Meithrin a meithrinfa ddydd sy'n aelod o'r Mudiad er mwyn iddynt fod yn gyfarwydd gyda'r caneuon pan fyddant yn mynd i ymweld â'r sioe.

Mae Ben Dant yn ymweld a Theatr Seilo, Caernarfon ar ddydd Mawrth, 12fed o Fehefin.



Cyfle i 100 o Bobl Gymryd Camau i Weithio Gyda Phlant Ifanc

Mae Mudiad Meithrin yn gwahodd ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da sydd am hyfforddi yn rhad ac am ddim i weithio gyda phlant ifanc.

Mae Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol Mudiad Meithrin yn rhoi cyfle i 100 o bobl hyfforddi ar gyfer Lefel 3 Gofal Dysgu a Datblygiad Plant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Bydd y cwrs yn cael ei gynnal rhwng Medi 2018 ac Awst 2019 gyda'r dyddiad cau am geisiadau ar y 1af o Fehefin eleni.

Meddai Harri Jones, Rheolwr Cenedlaethol Cam wrth Gam:

"Mae hwn yn gyfle gwych i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymuno yn y cynllun hyfforddi arbennig yma a fydd yn golygu ar ddiwedd y cwrs y bydd ganddynt gymhwyster i weithio mewn lleoliadau gofal plant ac mewn ysgolion cynradd."

Bydd angen i'r myfyrwyr llwyddiannus fod gyda phlant mewn lleoliad blynyddoedd cynnar am 16 awr yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol yn unig a mynychu cyfres o saith gweithdy yn ystod y flwyddyn. Mae modd i'r myfyrwyr gael eu lleoli mewn Cylch Meithrin, Meithrinfa Ddydd, neu Ysgol Gynradd.

Ymysg y swyddi fydd y myfyrwyr yn gallu eu gwneud ar ôl hyfforddi fydd ymarferydd crèche, cynorthwy-ydd mewn Cylch Meithrin, Meithrinfa, Clwb ar ôl Ysgol a

Chynorthwy-ydd Dosbarth mewn Ysgol Gynradd. Byddant hefyd yn gallu gweithio fel arweinydd mewn Cylch Meithrin, Cylch Chwarae a Chlwb ar ôl Ysgol, neu fel rheolwr neu ddirprwy reolwr meithrinfa.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Mudiad Meithrin wedi hyfforddi dros 2,100 o ymarferwyr i allu gweithio ym maes gofal plant a'r blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg. Un sydd ar fin cwblhau ei chwrs yw Alaw Smith o Gylch

Meithrin Terrig, Treuddyn ger yr Wyddgrug:

Meddai Alaw:

"Dydw i ddim yn dod o gefndir gofal plant ond roedd yr hyfforddiant oedd yn cael ei gynnig trwy'r cwrs yn rhoi cyfle imi newid cyfeiriad. Roedd y ffaith bod y cwrs am ddim yn atyniad i rywun fel fi efo teulu ifanc. Dwi'n meddwl fod cynnal y cwrs drwy'r gweithle yn sicrhau ein bod yn cael digon o brofiad."

Un arall sy'n cwblhau yn yr haf yw Enfys Evans, o Feithrinfa'r Enfys, Cross Inn, ger Llanon yng Ngheredigion.

Meddai Enfys: "Wnes i ddewis dilyn y cwrs oherwydd lefel y gefnogaeth oedd ar gael a'r ffordd mae'r cwrs yn cael ei gynnal. Mae'r gweithdai yn rhoi cyfle i chi gwrdd â phobl eraill sy'n gwneud y cwrs gan rannu profiadau â nhw. Mae gweithio ar leoliad yn wych oherwydd rych chi'n cael cyfle i wneud gwaith ymarferol er mwyn gallu datblygu eich sgiliau."

Os hoffech wneud cais ar gyfer cael eich ystyried fel dysgwr ar gyfer y cwrs fydd yn dechrau ym mis Medi 2018 yna lawrlwythwch y ffurflen gais oddi ar wefan Mudiad Meithrin <<http://www.meithrin.cymru/ffurflengais/>> a'i dychwelyd atom cyn y 1af o Fehefin 2018.

Mae cyfweiliad fideo gydag Alaw Smith ar gael o'r linc yma:

<https://youtu.be/8zQRp6qkYc>

Mae cyfweiliad fideo gydag Enfys Evans ar gael o'r linc yma:

<https://youtu.be/uhXZDo-f3p8>

Os am ragor o wybodaeth cysyllter ag:

Iola Jones, neu Daniel Davies


Pennaeth Tîm Cyfathrebu a Phartneriaethau

Swyddog Marchnata

Ffôn: 01970 639639 Ffôn: 01970 639639

Symudol: 07841 452 607

I BEN YR WYDDFA FAWR MEWN CAR



Harvey du Cross

Carcharwyd gŵr o'r enw Craig Williams am 22 mis am yrru ei gar Vauxhall Frontera 4 x 4 i ben yr Wyddfa ddwywaith yn ystod Medi 2011.

Ymateb gwahanol gafodd y ddau ŵr cyntaf i gyflawni'r gamp!

HARVEY DU CROSS

Y cyntaf oedd Harvey du Cros ar Fai 26, 1904, mewn car Ariel 15hp gan gychwyn o Lanberis gyda gŵr o'r enw Harry J Swindley yn gydymaith. Anodd credu eu bod yn ddigon ffôl i wneud ymdrech ar Ionawr 26, yng nghanol gaeaf! Methiant fu honno.

Ganwyd Harvey yn Nulyn ar Fawrth 15fed, 1872. Erbyn 1896, gwyddom ei fod yn Birmingham yn un o gyfarwyddwyr 'Rubber Tyre Manufacturing Co' a 'Cycle Components Manufacturing Co' a hefyd wedi buddsoddi yng nghwmni ceir 'Austin'.



Cychwyn o Lanberis.

WILLIAM MALMSBURY LETTS

Mae'r ail ŵr i yrru car i ben yr Wyddfa yn fwy diddorol i ni. Er ei fod wedi ei eni yn Swydd Northants yn Lloegr ar 26ain o Chwefror, 1873, treuliodd ran helaeth o'i oes, o 1902 ymlaen, yn Llandudno gan fyw i ddechrau yn 51 Church Walks cyn symud i blasty Eryl Fryn sydd bellach yn gartref nyrsio ar Ffordd Bodafon.

Ar y 6ed o Fehefin, 1906, llwyddodd William i yrru ei gar 'Oldsmobile' i ben yr Wyddfa mewn awr a 27 munud. Dywedir iddo stopio sawl tro yn ystod y daith! Gorchest arall ganddo y flwyddyn honno oedd gyrru'r car i fyny ac i lawr grisiau Crystal Palace!

Ond, mae'n siŵr bod gan sawl un ohonom achos i ddiolch iddo am rywbeth arall gan ei fod yn un o sylfaenwyr yr AA (Automobile Association). Gwnaeth hynny yn bennaf am ei fod yn flin hefo'r awdurdodau am erlyn gyrrwyr am oryrru. Ar y ffordd o Lundain i Brighton byddai ganddo ugain o feicwyr fyddai'n arfer 'salwtio' aelodau'r AA, ond os byddai trapiau goryrru yn y cyffiniau, ni fyddent yn gwneud!

Yn 1922 daeth yn Uchel Siryf Sir Gaernarfon a'i urddo'n farchog. Bu'n weithgar iawn gyda nifer o fudiadau lleol ac ymysg yr ymwelwyr â'i gartref roedd David Lloyd George.

Bu farw yn 1957 ac fe'i claddwyd yn y fynwent ar Ben y Gogarth. Bedd digon di-nod gafodd o, ei wraig a'i fab Charles.

Seimon Pedr...

("Ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys")

Un tyff, ryff a thipyn o rog – un sgit
am sgota a'i gyflog,
hwn a'i glic wrth Fryn y Glôg
ond wedyn tyst godidog.

Norman Closs

FFAIR HAF

Ysgol Gynradd Llanrug

Mehefin 9^{fed}, 1 o'r gloch 2018 June 9th, 1 o'clock



Beicio i Borth yr Aur!

Meddyliwch amy 'Golden Gate' ac mae'n debyg mae delwedd o San Francisco heulog sy'n dod i'ch meddwl ... ond mae Antur Waunfawr yn dathlu symudiad ei siop beics i 'Golden Gate' Caernarfon, sef Porth yr Aur.

Mae Antur Waunfawr yn fenter gymdeithasol sy'n darparu cyfleoedd gwaith i oedolion ag anableddau dysgu, ac yn gynt roedd Beics Antur wedi'i leoli ar y Cei Lechi yng Nghaernarfon.

Prynwyd Iard Porth yr Aur ym mis Tachwedd 2017, gynt yn eiddo i gwmni cludiant lleol, Pritchard Bros. Mae'r adeilad llawn hanes, ac mae waliau'r dref yn ffurfio rhan o'r adeilad ei hun. Mynedfa fwaog 'Porth yr Aur' gyferbyn a'r safle oedd y brif fynedfa atfor i'r fwrdeistref ganoloesol.



Gorymdaith Beics Antur drwy'r dref i ddathlu'r symud i'r safle newydd ym Mhorth yr Aur. / Beics Antur's procession through the town to celebrate the move to the new site at Porth yr Aur.

Yn ogystal â llogi, gwerthu a gwasanaethu beics, bydd y safle newydd yn darparu mwy o gyfleoedd iechyd a lles i unigolion gyda anableddau, yn ogystal â bod yn ganolfan llesiant i'r gymuned leol.

Ar ôl sawl mis o baratodau, cynhaliwyd y mudo mawr o feics ac offer ym mis Ebrill, gyda gorymdaith arbennig o amgylch y dref ar fflyd o feics wedi'u haddasu'r Antur.

Dywedodd Huw Davies, dirprwy prif weithwredwr Antur Waunfawr: "Mae hi'n amser cyffroes iawn i Feics Antur. Mae hwn yn gyfle i ni chwarae rhan yn natblygiad twristiaeth y gogledd, ac i hyrwyddo iechyd a lles yn y gymuned.

"Roeddem eisiau dathlu'r symudiad i'n safle newydd, ac roedd yr orymdaith o amgylch Caernarfon yn llwyddiant mawr! Mi gafodd criw o'r unigolion y cyfle i reidio o amgylch y dref a chyfarch pobl leol, twristiaid a busnesau, ac i ledaenu'r gair am ein menter newydd."

Mae Beics Antur wedi'i leoli ym Mhorth yr Aur, Caernarfon, LL55 1RN. Ffôn: 01286 674738 / 07436 797969

Gwefan: www.anturwaunfawr.cymru



Safle newydd Beics Antur ym Mhorth yr Aur / Beics Antur's new site at Porth yr Aur

Sefydliad y Merched Ar y 3ydd o Fai roedd y Sefydliad yn y pentref yn dathlu pen-blwydd yn 90 oed. Croesawodd Catherine, y Llywydd, yr aelodau ynghyd â'r gwesteion, Mrs Margaret Lloyd Jones a Carol Houston, Llywydd ac Ysgrifennydd y Ffederasiwn a Pat Jones, Cynullydd Grŵp Eryri, i'r dathliad yn Bron Menai, Caernarfon.

Cafwyd ychydig o hanes y sefydlu yn y pentref (amser tipyn yn ansicr ar y cychwyn yn ôl yr hanes) gan Catherine, sydd wedi bod yn aelod ers dros 70 o flynyddoedd. Wedyn daeth Margaret ymlaen i ddiolch am y croeso ac i sôn mwy am y Sefydliad yn gyffredinol. Estynnodd Carol a Pat eu diolch hwythau hefyd. Torrwyd y gacen ben-blwydd gan Margaret, Catherine a Pat Parry (ysgrifennydd). Prynawn difyr iawn a phawb wedi mwynhau y bwyd hyfryd a'r achlysur arbennig. Ymlaen rŵan am y 100!



Gwasanaethau Capel y Waun am fis Mehefin

3: Parch Nan Wyn Powell-Davies - Cymun

10: Cyfarfod yr Aelodau

17: Parch Gerallt Ll. Evans, Llangristiolus

24: Parch Huw Pritchard, Llangefni

Dalier Sylw

Daw y rhifyn nesaf o'r Eco o'r wasg ddiwedd mis Mehefin. Os oes yna ddigwyddiad pwysig ar gyfer mis Gorffennaf neu fis Awst, bydd yn rhaid iddo fynd i'r rhifyn nesa - Dydd Sul, 24 o Fehefin.

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW

Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Parhad WAUNFAWR



Ysgol Waunfawr

Pwyllgor Cyfeillion a Rhieni yr ysgol

Carai'r ysgol ddiolch i'r pwyllgor am drefnu noson gymdeithasol i'r mamau nos Wener diwethaf, Mai y 18fed. Cafwyd cyfle i brynu nwyddau o Body Shop a sgwrsio ac ymlacio gyda gwydriad (neu ddau) o brosecco!! Diolch i'r mamau a ddaeth i gefnogi. Cafwyd noson lwyddiannus.

Rygbi Llongyfarchwyd Gruff Llwyd, Gruff Mei a Mabon o flwyddyn 6 aelodau o dîm rygbi dan 11 Caernarfon a fu ar daith yn Iwerddon dros wyliau'r Pasg yn y rhifyn diwethaf. Dyma ddwy erthygl a ysgrifennwyd gan Gruff Llwyd yn adrodd dau hanes y tim rygbi.

Cofis ar Daith

Roedd hi'n fraint i fi a Rob gael cyd-gapteinio tîm rygbi o dan 11 Caernarfon ar drip i Iwerddon ddechrau mis Ebrill. Fore dydd Gwener cychwynnom ni o Gaernarfon cyn saith y bore i ddal y llong yng Nghaergybi.

Ar ôl taith hir ar y llong aethom ni i ganolfan gweithgareddau i ymlacio drwy chwarae Bowlïo 10 a 'Laser Tag'. Arhosom ni yn y Green Isle Hotel a chawsom fynd i'r pwll nofio oedd yno.

Ddydd Sadwrn oedd ein sialens gyntaf ni – chwarae yn erbyn tîm Barnhall. Chwaraeom ni fel tîm, roedd cyd-chwarae gwyd rhwng y blaenwyr a'r cefnwyr a llwyddon ni gael sawl cais ac ennill o 105i10. Cawsom hefyd wylïo'u tîm cyntaf yn chwarae.

Ar y trydydd diwrnod roedd ein sialensfwyaf, chwarae un o dimau gorau Iwerddon, sef Clwb Rygbi Lansdowne. Roedd hi'n gêm galed, gorfforol a budr ar adegau ar gae 3G. Erbyn y diwedd roedd hi'n 15 i'r Gwyddelod a 45 i'r Cofis!

Ar ôl chwarae Lansdowne cawsom y fraint o gyfarfod â Mike Ruddock, cyn-hyfforddwr Cymru, a wnaeth ennill y goron driphlyg. Yn ei sgwrs efo ni ar ôl y gêm dywedodd Mr Ruddock fod safon rygbi Gogledd Cymru yn gwella bob blwyddyn ac efallai bod seren nesaf Cymru yn ein carfan ni! Yna cawsom daith o gwmpas Stadiwm Aviva a oedd yn brofiad ardderchog. Aethom hefyd am dro i Ddylun cyn dal y llong adref.

Hoffwn ddiolch i'r tîm i gyd am chwarae mor dda ac i'r hyfforddwyr am drefnu taith fythgofiadwy i ni.

Rydw i yn gobeithio gawn ni'r Cofis fynd ar daith arall yn fuan!

Tim Rygbi Ysgolion Eryri

Nôl ym mis Hydref ar ôl cyfres

o dreialon cefais i a 4 Cofi arall o dîm rygbi Caernarfon ein dewis i garfan Tîm Rygbi Ysgolion Eryri (Gwynedd, Môn a Chonwy). Roeddem yn ymarfer yn galed bob nos Fercher yng Nghlwb Rygbi Bethesda.

Cawsom ein gêm gyntaf ar ôl pythefnos o ymarfer yn erbyn Tîm Ysgolion Merthyr. Cawsom groeso mawr yno yng nghlwb rygbi Treharris ar ôl teithio lawr i'r De ac aros mewn gwesty.

Buom yn ymarfer eto wedyn a chwarae yn erbyn timau flwyddyn yn hŷn na ni. Buom yng nghlybiau rygbi Bethesda, Bro Ffestiniog, Caernarfon, Nant Conwy. Y gêm gwpan nesaf oedd yn erbyn Tîm Gogledd Ddwyrain Cymru ac aethom i Wrecsam i chwarae'r gêm. Llwyddom i gipio'r fuddugoliaeth yno a'r cam nesaf oedd gêm yn erbyn tîm Ysgolion Cwm Rhymni yng nghlwb rygbi Llanidloes. Yn anffodus colli wnaethon ni y tro hwn o drwch blewyn.

I orffen y tymor roedd twrnament rygbi 7 bob ochr ysgolion cynradd Cymru yn cael ei gynnal yn Abertawe felly cefais drip arall i'r De. Arhosom ni mewn gwesty yn Abertawe yn barod am y twrnament a oedd o'n blaenau. Ar ddiwrnod y twrnament roeddem yn chwarae timau ledled Cymru. Ar ôl gorffen y grŵp yn gadarn cawsom fynd trwodd i rownd gyn-derfynol y blât yn erbyn ysgolion siroedd y Gogledd gan ennill 30 i 5. Felly roedden wedi hawlio lle yn y rownd derfynol. I goroni tymor a phrofiadau gwyd enillon ni'r blât yn haeddiannol.

Gruff Llwyd

Ysgol Waunfawr

Poblwc

- I'r Côr Cerdd Dant fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanfair-ym-Muallt ddydd Mawrth, Mai y 29ain.

- Yr un modd dymunwn pob llwyddiant i Ellie o flwyddyn 6 a fydd yn cystadlu gyda'r tîm dawnio disgo Milwyr Dinistriol Dymunwn wyliau Sulgwyn braf i bawb

Marion Iwan, Waunfawr

Yn sgil casgliad a wnaed er cof am Marion Iwan, Afallon, Waunfawr, rhoddwyd £3000 tuag at Cefnogaeth Cancr Macmillan. Hoffai Llion, Elliw a Telor ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd er cof am eu mam.

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Ebrill oedd: £30: Mr Raymond Edwards, Felin y Wig; £20:

Catrin Lowri, 3 Croes y Waun; £10: Mr a Mrs D. Creasley, Minafon.

Merched y Wawr Cynhaliwyd ein cyfarfod mis Ebrill yn y Ganolfan pryd y daeth Rhian Humphreys o Gyngor ar Bopeth atom i egluro ychydig am waith y sefydliad yng Ngwynedd ac i apelio am gymorth gwirfoddolwyr yn y gwaith hynod o werthfawr o roi cyngor ac arweiniad i bobl â phob math o anghenion ymarferol. Rydym yn ddiolchgar iawn i Rhian am roi o'i hamser i ddod atom ac am y sgwrs ddifyr. Cyn dechrau'r cyfarfod cafodd ein llywydd, Heulwen Huws, gyfle i roi ychydig o eiriau o deyrnged i'r ddiweddar annwyl Marion Iwan. Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar Fai 24 yn y Ganolfan pan fyddwn yn croesawu Eluned Yaxley o Dŷ Gobaith atom. I gloi'r flwyddyn bydd ein gwibdaith ar Fehefin 28 i Amgueddfa ac Oriel Storiol ym Mangor gyda bwyd i ddilyn yn Llechen yn Nhalybont.

Dau Frawd a Dwy Chwaer Llongyfarchiadau i Tomos a Cai Morgan, Cartrefle, dau frawd oedd yn chwarae i dîm pêl-droed Ysgol Brynrefail yn ffeinal Cwpan Ysgolion Cymru dan ddeunaw ar gae pêl-droed TNS yn Llansanffraid yn erbyn Ysgol Sant Teilo, Caerdydd. Brynrefail enillodd o dair gôl i ddwy, gyda Cai yn sgorio'r drydedd gôl.

Llongyfarchiadau hefyd i ddwy chwaer, sef Erin a Mared Ynyr, Dolwar Fach. Mae Erin, sydd newydd gymhwyso fel athrawes, wedi ei phenodi yn athrawes Gymraeg yn Ysgol Plas Mawr, Caerdydd, ysgol sy'n cael ei hystyried ymysg un o'r goreuon yng Nghymru. Mae Mared hithau, sydd ar ei blwyddyn olaf yn gwneud gradd yn y Gyfraith, wedi cael swydd yng Nghaerdydd fel Archwilydd dan hyfforddiant gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

Llongyfarchiadau Ganwyd merch fach, Daisy, i Jasmine a Luke, 1 Penclip, wyres i Neil a Corinne, Llanerch, Teras Cefn Du.

Daeth Christine a Garry Davies, Hafan, yn daid a nain i wŷr bach newydd, Eban Elis, mab i Nicola a Kevin, eu mab sy'n byw yn Llanrug.

Dymuniadau gorau i'r ddau deulu bach, mwynhewch y magu.

Helpu Ffrind Dyna ddiwyddodd rhyw bedwar penwythnos yn ôl ym mhentref Llanrug. Dilwyn Jones a'i gyfaill yn beicio o Gaerdydd i

Gaernarfon yn cael eu noddï gan ffrindiau a'r cyhoedd oedd wedi ymgynnull yn y pentrefi ar y ffordd i fyni er mwyn eu hybu ymlaen. Casglwyd y swm o bedair mil o bunnoedd at gronfa Archie, mab bach Katie, wŷr Sara a gor-wŷr Charlotte a oedd yn gweithio yn y Syrjyri yma yn y Waun.

Roedd hyn yn weithred garedig iawn ac mae Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan, yn falch ofnadwy o Dilwyn, ei hŵyr.

Pen-blwydd **Arbennig** Llongyfarchiadau i Sean Wroe, Bryn Siriol, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed. Dymuniadau gorau iti i'r dyfodol, Sean.

Ar y Teledu Yn ystod y mis bu camerau rhaglen deledu yn ffilmio yn un o gartrefi y pentref. Edrychwn ymlaen i gael gwylio'r rhaglen ar y teledu.

Adref o'r Ysbyty Croeso adref i Treflyn, Treforfan, sydd wedi cael dod adref o'r ysbyty ar ôl derbyn gofal mawr yno. Rydym yn falch o'ch gweld yn ôl adref ac yn mwynhau cael bod ymysg eich teulu a ffrindiau.

Bu Charlie Rees, Stad Tref Eilian, yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae'n dda clywed ei fod yn gwella ac wedi cael dod adref.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Nant yn eu profedigaeth o golli mam Cadi, mam yng nghyfraith John, nain falch Osian a Catrin, Meilyr a Lyndsey a Heddu ac Iwan. Nain, hen nain Nanhoron Efa, Greta a Meri, Mali ac Annie a Jaco.

Yn sydyn yn ei gartref bu farw Mike Perkins. Cydymdeimlwn â'i wraig, June, ei ferch Lorna, Tony, ei fab a'i ferch yng nghyfraith, Karen, ac a'i bedwar wŷr yn eu profedigaeth drist.

Yn dawel yng Nghartref Nyrsio Willow Hall, Caernarfon, bu farw Mrs Beti Wyn Hughes, Mam a nain annwyl i Alan Wyn, Arwel ac Eleri a'u teuluoedd a chwaer i Mair Eleri. Bu'r teulu yn byw yma yn y Waun, yn Stad Dôl Erddi, ac ym Mhlas Bod Hyfryd. Bu Beti Wyn yn brysur iawn yn ein hyfforddi ni, blant y pentref, ar gyfer yr Eisteddfod Bntref ddechrau mis Ebrill yn flynyddol.

Daeth y newyddion trist i ni am farwolaeth Nancy Buckley a fu'n byw yn Stad Croes y Waun. Anfonwn ein cydymdeimlad at Fred, ei gŵr, ei mab Peter a'r teulu yn eu profedigaeth.

Marwolaeth Estynnwn ein cydymdeimlad gyda theulu'r diweddar Derek Morris, Ffordd Deiniol, wedi ei farwolaeth ddiweddar, colled fawr i Sandra, Gerallt, Gwydion a'r holl deulu a ffrindiau.

Fe ysgrifennodd Sandra y cerddi canlynol er cof am ei thad a chawsant eu darllen gan Idris Thomas yn yr angladd

Er cof am Derek, Gŵr, Tad a Thaid arbennig.

Gŵr cadarn, cryf a charedig,
Wastad yn gall ac yn deg.
Distaw, dwys a diffuant,
Heb air drwg i ddeud am neb.

Yn ŵr ffyddlon i Mam,
Ei gariad ers bore oes.
Rŵan, yn ôl yn ei chwmni,
Daw diwedd nawr i'r loes.

Tad annwyl i Gerallt a finna',
Yn ddoeth a chariadus o hyd.
Dad - Ti ydoedd ein gwynfyd,
A do, nes di lenwi ein byd.

Taid amhrisiadwy i Gwydion,
Cannwyll dy lygaid di.
Oherwydd dy gariad diamod,
Fydd yntau'n ddyn da fatha ti.

Dad - Diolch am bopeth,
Am ofalu na chawsom gam.
Bellach mi gei di orffwyso,
Am byth ym mreichiau Mam.

Diolch Dymuna Guto, Daniel a Sam ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl.

Diolch Dymuna Eurwen, Mary a'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb annwyl, sef Glenys Lloyd Jones, Celyn.

Diolch Dymuna Bryn, Kevin a theulu'r ddiweddar Helen Wyn Jones, 9 Tai Caradog, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y rhoddion, cardiau a'r galwadau ffôn a gafwyd yn dilyn marwolaeth Helen. Hefyd diolch arbennig i'r Parch. John Pritchard a Meinir Griffith am eu gwasanaeth trylwyr.

Llongyfarchiadau enfawr i Lois yn dilyn olion traed ei chwaer fawr, 1af ar yr Unawd bl 3 a 4 yn Eisteddfod Ffor a'r Cylch.

Merched y Wawr Deiniolen

Yn y cyfarfod nos Lun, 21 Mai, mynegwyd cydymdeimlad â theulu Margaret Elen, un a fu'n aelod brwdfrydig a ffyddlon o Ferched y Wawr yn y pentref am flynyddoedd, ac a fu farw yn ddiweddar. Roedd y noson hon yng ngofal Susan Peters o Gaernarfon, a roddodd arddangosfa gosod blodau gwerth chweil a nifer o gynghorion i'r aelodau. Diolchwyd yn fawr iddi am roi'r pum trefniant a luniodd yn wobrau raffl ar y noson, a llongyfarchiadau i'r enillwyr.

Cafodd tîm y gangen y drydedd wobr yn y gystadleuaeth Bowlio Deg ranbarthol yng nghanolfan Glasfryn yn ddiweddar, ac maent wrth gefn ar gyfer y rownd derfynol ym mis Mehefin.

Mwynhaodd cynrychiolwyr o'r gangen Wyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars ym Mangor ddydd Sadwrn, 12 Mai, ble y cafwyd diwrnod da o gymdeithasu ac adloniant penigamp gan y Brodyr McGee o Ynys Môn, a Chôr Ieuenctid Môn, a sgysiau diddorol gan Robert David, y cynllunydd cartref o Ben Llŷn ac Emyr Jones, cyn-Lywydd NFU Cymru. Edrychir ymlaen rŵan at y daith haf flynyddol ddydd Sadwrn, 9 Mehefin, pan fyddwn yn mynd i weld Yr Ysgwrn, Trawsfynydd, ar ei newydd wedd.

COFIO AM DEREK

Daeth tyrfa luosog i Eglwys Llandinorwig ar y 3ydd o Fai i ffarwelio â Derek Morris, 7 Ffordd Deiniol, Deiniolen a hunodd ar y 25ain o Ebrill yn 79 mlwydd oed. Fe'i ganed yn y Felinheli cyn dod i aelwyd rhif 87 ym Mhentre Helen pan yn ddyflwydd oed. Ef oedd unig blentyn Tomi a a Maggi Cathryn Morris; hanai ei fam o Gonwy. Roedd ei dad yn amlwg iawn yn Eglwys Llandinorwig oherwydd ei waith diwyd fel clochydd, ac yn Warden am gyfnod a deuai yno ar nos Sadyrnau i gynnu'r tân er mwyn i'r addoldy fod yn gynnes ar y Suliau.

Cigydd oedd Derek wrth ei waith a bu'n gweithio am 43 mlynedd i gwmni "Roberts a'i Feibion" yn y Felinheli. Cyfarfu Derek â'i ddarpar wraig, Eleanor, yno ac ar ôl chwe mis priododd y ddau yng Nghapel Bryn Rodyn yn y Groeslon o lle hanai Eleanor. Cartrefodd y ddau yn Rhif 2 Rhes Marian cyn symud i'r aelwyd bresennol. Dyn ei gynefin a'i filltir sgwâr oedd Derek, roedd ganddo amrywiol ddiddordebau a hoffai yn fawr yn gymdeithasol gwmni'r hogia ac un o'i gyfeillion pennaf oedd Dafydd twins. Gŵr tawel a di-stŵr ydoedd, bob amser yn drefnus a thaclus ac roedd caredigrwydd yn rhan annatod ohono a dangosodd hynny'n arbennig i'w deulu gydol y blynyddoedd. Yn agos iawn i'w galon oedd Eglwys Llandinorwig lle roedd yn selog, yn un o'r casglyddion, yn archwilio'r Fantolen ariannol a bu'n gefn mawr i'w briod gyda'i gwaith fel Warden. Y golled fwyaf un iddo a'r teulu a phawb arall oedd colli ei annwyl briod Eleanor ym mis Chwefror bedair blynedd yn ôl,-ergyd galed a dirdynol tu hwnt i ddychymyg oedd ei cholli ac anodd oedd ymgodymu â'r fath sioc.

Yn ei deyrnged haeddiannol i Derek soniodd Idris am y gannwyll hardd a roddwyd er cof am Eleanor yng Nghangell yr Eglwys a gaiff ei chynnau ymhob gwasanaeth bob Sul a Gŵyl;-y fflam o'i chofio yn fyw a gweladwy yno fel ag y mae yng nghalonau ei theulu. Darllenwyd penillion arbennig iawn i gofio am Derek a ysgrifennwyd gan ei ferch Sandra. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Canon Idris Thomas, Glanrafon, a'r organyddes oedd Anette Bryn Parri. Rhoddwyd Derek i orffwys ym mynwent yr Eglwys a chafwyd lluniaeth ar ôl y cynhebrwng yn yr Eglwys. Derbyniwyd rhoddion at Sefydliad y Galon. Cydymdeimlir â'r teulu oll. Roedd Derek yn dad hynod ofalus a chariadus i Sandra, Gerallt a'i gyfar Cheryl, ac yn daid amhrisiadwy i Gwydion, y meddyliai Derek y byd ohono. Y Cyfarwyddwyr Angladdau oedd Meinir o Dylan Griffith, Tros y Waen, Penisarwaen.

HUW OWEN

PLASTRWR ADEILADWR LLEOL

22 BLWYDDYN O BROFIAD

Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159

Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG

Ebost- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR WŶN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST

**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!**

(01286) 673574



Parhad DEINIOLEN




DYFODOL DEINIOLEN

Crynodeb o drafodaethau cyfarfod 9/5/2018

Dyma boster sy'n crynhoi trafodaethau cyfarfod Dyfodol Deiniolen a gynhaliwyd yn Ysgol Gwaun Gynfi ar nos Fercher yr 9fed o Fai. Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus ym mis Ebrill bu i'r ail gyfarfod fod yr un mor gadarnhaol, gyda torf dda yn mynychu a phawb yn frwd i weithredu. Cafwyd crynodeb o'r materion a godwyd yn y cyfarfod cyhoeddus ac yna aethpwyd ati i rannu pobl i is-grwpiau tasg.

Dyma ddiagram sy'n nodi y strwythur gweithredu:



Trafodwyd yr angen i barhau i lobio am well gwasanaeth bysiau i'r pentref, yr angen i harddu'r pentref, datblygu cynllun neighbourhood watch, codi arian i ddiogelu'r clwb ieuentid a'r clwb snwcer a chael parc sgleffrddio i bobl ifanc. Cafwyd cryn drafodaeth am yr angen am ganolfan gymunedol hefyd ac fe ranwyd copiau o astudiaeth opsiynau a chynlluniau pensaernïol a gwyd yn ol yn 2014 i drawsnewid Capel Ebeneser. Mae copiau o'r dyluniadau bellach ar gael ar ein gwefan os yr hofech edrych arnynt. Bydd y grwpiau tasg yn mynd ati i weithredu dros yr wythnosau nesaf ac yn cadw mewn cyswllt rheolaidd.

Dyddiadau i'w Cofio:

Taith Casglu Ysbwriel: 28 Mai, Y Lodge, Dinorwig - manylion gan
Cynghorydd.ElfeWynWilliams@gwynedd.cymru

Cyfarfod Grwp Llywio: 7:30yh 11 Gorffennaf, Ysgol Gwaun Gynfi

Cyfarfod Cyhoeddus Llawn: 7:30yh 12 Medi, Ysgol Gwaun Gynfi

Cadw'ch Mewn Cysylltiad:

Twitter: @GDDeiniolen **Tudalen Facebook:** Dyfodol Deiniolen


Gwefan / Blog: www.dyfodoldeiniolen.wordpress.com

Ebost: dyfodoldeiniolen@yahoo.co.uk

DYFODOL DEINIOLEN

Summary of meeting discussions - 9/5/2018

Here is a poster which summarises the discussions had during the Dyfodol Deiniolen meeting held at Ysgol Gwaun Gynfi on Wednesday evening the 9th of May. Following a successful public meeting held in April this 2nd meeting was also encouraging with a good turn out and everyone eager to work to improve the village. The meeting involved a recap of issues discussed at the public meeting and then attendees were shared into various individual task groups. Here is a diagram which explains the structure adopted...



Discussions regarding the need to continue lobbying for a better bus service were had as well as how we can improve the look of the village, set up a neighbourhood watch scheme, how to raise funds to safeguard the youth club and snooker club and the need for a skate park for young people. The need for a community centre were also discussed and copies of an options appraisal report and architectural drawings to transform Capel Ebeneser, produced in 2014, were shared. Electronic copies of this report is now available on our website to view also. The individual task groups will now get to work over the next few weeks and will be keeping in touch on a regular basis.

Dates to Remember:

Litter Picking Walk: 28 May, The Lodge, Dinorwig - details from
Cynghorydd.ElfeWynWilliams@gwynedd.cymru

Steering Group Meeting: 7:30pm 11th July, Ysgol Gwaun Gynfi

Full Public Meeting: 7:30pm 12th September, Ysgol Gwaun Gynfi

Keep in Touch:

Twitter: @GDDeiniolen **Facebook page:** Dyfodol Deiniolen

Website / Blog: www.dyfodoldeiniolen.wordpress.com


Email: dyfodoldeiniolen@yahoo.co.uk

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS





GERAINT OWEN CARPEDI

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill, Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

CARPEDI TEILS VINYL

DEWIS MAWR
O BATRYMAU

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"





DIONI

<http://dioni.co.uk>
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk



Royal Victoria Hotel

LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned
Llanrug

Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd 17 o Ebrill 2018.

Y Gwasanaeth Ieuenctid

Croesawyd cynrychiolwyr o Wasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod i drafod penderfyniad diweddar Cyngor Gwynedd i gau clybiau ieuenctid a'i effaith ar Llanrug ynghyd a gwahanol opsiynau sydd ar gael.

Amlinellwyd y sefyllfa bresennol a dyheadau Cyngor Gwynedd ar gyfer dyfodol y gwasanaeth sef y byddai'r clybiau ieuenctid sefydlog, fel yn Ysgol Brynrefail ar hyn o bryd, yn cau a byddai'r gwasanaeth ieuenctid yn mynd allan i'r cymunedau. Adroddwyd ei fod yn angenrheidiol fod y gwasanaeth yn darparu gwasanaeth i bob unigolyn rhwng 16 a 25 sydd ddim mewn addysg a gwaith. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a diolchwyd i'r Swyddogion am ddod i'r cyfarfod. Bydd y Cyngor Cymuned yn ystyried y sefyllfa a'r gwahanol opsiynau.

Y Fynwent

Adroddwyd fod Pwyllgor y fynwent wedi ystyried y gwaith sydd angen ei wneud oherwydd fod y fynwent yn prysur lenwi. Nodwyd fel rhan o'r gwaith o ehangu'r fynwent, fod angen codi'r wal sydd yn ffin y fynwent. Nodwyd ymhellach fod cyflwr y cwt wrth y fynedfa i'r fynwent yn wael.

Penderfynwyd cael prisiau am y gwaith cynnal.

Llwybrau cyhoeddus

Adroddwyd fod llwybr Gelliog yn hynod o fwdlyd ac ei fod angen sylw.

Penderfynwyd adrodd am y llwybr i Gyngor Gwynedd ac i atgoffa'r Swyddog Llwybrau am y llwybrau sydd eisoes wedi eu dwyn i'w sylw ond hyd yma ddim wedi derbyn ymateb.

Caeau Chwarae

Adroddwyd fod cwyn wedi ei dderbyn am gyflwr y maes chwarae yn Nant y Glyn.

Penderfynwyd gwahodd Pennaeth yr ysgol i fynychu cyfarfod o'r Cyngor.

Ysgol Gynradd Llanrug

Derbynwyd adroddiad gynhwysfawr gan y Cyng. Llywelyn Williams ar gyfarfod diweddar o Lywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug.

Cyngor Gwynedd

Derbynwyd adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd yn cynnwys: Gwasanaeth Hamdden

Rhaglen i sefydlu cwmni newydd i redeg y gwasanaeth wedi ei gytuno gyda'r gobaith y bydd pob peth wedi ei gwblhau erbyn diwedd Hydref.

Bysiau

Cwynion wedi'i derbyn fod bysus wedi bod yn hwyr neu ddim wedi troi i fyny ar adegau. Mae cwmni Arriva yn awyddus i gael gwybod am yr achosion yma, ac o bosib bydd iawndal mewn ffurf tocynnau bysiau i gael am unrhyw anhwylostod. Annogir unrhyw un sydd wedi cael ei effeithio, i gysylltu a'r Cyngor, ac fe wnaent yrru unrhyw gwynion ymlaen at Arriva.

Llwybr troed rhwng Cwm y Glo a Llanrug

Y gwaith yn dal i fynd ymlaen. Gobeithir byddant yn cwblhau yn fuan.

Gadael Ysbwriel

Mae tipio slei bach yn dal yn broblem. Os oes gan unrhyw un wybodaeth am pwy sy'n gwneud, gadewch i'r Cynghorydd neu yr Awdurdod wybod.

Derbyniwyd adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones yn cynnwys:

Llifogydd Gaeaf 2017:

Llwybr ger Ogwen :

Rhodddwyd cais yn 2016 i Gyngor Gwynedd ymestyn wal gynnal yr afon ger talcen tŷ Ogwen ar y llwybr cyhoeddus a gwnaethpwyd y gwaith yn ystod mis Chwefror a Mawrth. Gobeithir y bydd y gwaith yma yn datrys y broblem o ddŵr yr afon yn gorlifo i Ogwen pan mae lefel yr afon yn codi yn ystod cyfnodau o law trwm dros gyfnod estynedig.

Cais Cynllunio - Adeiladu 9 ty ar Gae'r Eglwys, Llanrug.

Yn dilyn gohebiaeth gyda'r Cyngor Sir, mae'r Adran Gynllunio wedi datgan nad oes cyfiawnhad i gynnwys ffordd gyswllt o Ffordd yr Orsaf i'r A4086 fel amod mewn unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer y stad er y byddai wedi bod yn ddymunol pe bai'r ffordd linc wedi gallu cael ei hadeiladu gyda'r effaith o leihau'r pwysau traffig ar y "sgwâr". Yn anffodus, nid oes modd i'r Cyngor orfodi'r datblygwr presennol i'w gynnwys yn ei gynlluniau ef. 'Does gan y Cyngor Sir gynllun i wella llif trafniadaeth y Sgwâr ar hyn o bryd.

Mae'r datblygwr bellach wedi cyflwyno cynllun diwygiedig sy'n ceisio cyfarch y problemau parcio ar y cynllun gwreiddiol ar gyfer rhai o'r tai. Fodd bynnag, nid yw'n fodlon paratoi llwybr troed o'r stad arfaethedig i Ffordd yr Orsaf.

Ffordd Crawia

Mae llawer wedi cwyno am gyflwr wyneb Ffordd Crawia, yn arbennig o fynedfa stad Hafan Elan i fynedfa Ysgol Brynrefail. Mae'r Adran Briffyrdd yn ystyried rhoi'r y gwaith allan i gcontractwyr.

Elusen 'Llanrug Poor House'

Adroddwyd fod arian yn y gronfa yma a bod angen dod a'r elusen i ben gan nad yw yn addas erbyn hyn. Penderfynwyd cymryd y camau priodol i geisio dod a'r elusen i ben.

Cyflwr ffyrdd yn Llanrug a Chwmyglo

Adroddwyd fod nifer o gwynion wedi'i derbyn am gyflwr y ffyrdd yn yr ardal. Adroddwyd fod y gwaith o drwsio'r ffyrdd wedi ei glustnodi i'w wneud.

Sefyllfa Parcio ar Ffordd yr Orsaf, Llanrug

Adroddwyd fod y sefyllfa parcio ar Ffordd yr Orsaf yn ddrwg iawn, gyda pobl yn mynd i'r siopau a'r feddygfa a'i bod yn amhosib yn aml cael lle i barcio yn agos i'r feddygfa. Penderfynwyd cysylltu a'r feddygfa i drafod y posibilrwydd o ddefnyddio llecyn o dir ger y feddygfa fel man parcio.

Ceisiadau Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cnalynol:

Atgyweirio adeilad anheddol a chodi estyniadau ar yr ochr a'r cefn - Greuor, Llanrug

Diwygio amod o ganiatâd er mwyn codi uchder to'r tŷ - Afonwy Cottage, Pontrug


Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**

3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202



O’r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION CYFARFOD MIS EBRILL 2018:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fercher 25 Ebrill, 2018 am 7.00 y.h.

1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Bethan Holding, Heather Lyn Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Nicola Brown, Olwen Gwilym, Iwan Harding, Kevin Morris Jones.

2 DATGAN BUDDIANT:

Dim. Cofnodir o dan wahanol benawdau os bydd angen.

3 CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher 21 Mawrth, 2018 fel rhai cywir

4 MATERION YN CODI O’R COFNODION:

1. Y Wefan:

Ar y gweill.

2. Ciosg BT Maes Padarn a Hysbysfwrdd Ychwanegol:

Wedi gofyn caniatad CG i osod yr Hysbysfwrdd ar y toiled ym Maes Padarn. Cyngor Gwynedd angen ffi, cynllun a mesuriadau. Y cyfan mewn llaw. Disgwyl y bydd y blwch ffôn yn cael ei ddymchwel yn fuan.

3. Mainc ger Cysgodfan Nantperis:

Wedi ei gosod, nid oedd modd adfer yr hen un.

5 MATERION ERAILL:

1. WhatsApp:

Gofynnwyd i bawb fod yn fwy ystyriol wrth anfon negeseuon ar y cyfrwng hwn. Awgrymwyd gan nad oedd pawb yn ei ddefnyddio mai’r ebost ydi’r cyfrwng swyddogol.

2. Heddlu Gogledd Cymru:

Yn dilyn trafferthion a chambyhafio gan nifer fechan o bobl ifanc yn ddiweddar roedd llythyr wedi ei anfon gan un o drigolion y pentref at un o’r heddwision cymunedol a oedd rai misoedd cyn hynny wedi croesawu unrhyw wybodaeth am gamymddwyn yn y pentref. Chafwyd dim ateb ac felly fe anfonodd y Clerc lythyr at y Bennaeth Rhanbarthol yr heddlu yng Nghaernarfon yn gofyn oedd modd iddo anfon heddwasi y gyfarfod nesaf y Cyngor gan amgau copi hefyd o lythyr yr achwynwr gwreiddiol. Er mawr siom chafwyd dim ateb. Gofynnwyd i’r Clerc ail gysylltu.

3. Biniau Halen:

Yn dilyn archebu halen ar gyfer y biniau adeg y tywydd oer cafwyd ar ddeall na chwblhawyd yr archeb o gwbl. Yn ôl CG nid oedd digon o ddynion ar gael ac roedd blaenoriaethau eraill. Penderfynodd y Clerc ddiddymu’r archeb gan nad oes diben cael halen a graean yn difetha’n y biniau dros yr haf. Bydd angen ail ystyried beth i’w wneud ar drothwy’r gaeaf nesaf.

4. Giat ger y Grid gwartheg:

Mae gwaelod y giat ger y grid wrth Maes Derlwyn wedi torri, ac mae’n bosib bod defaid yn dod trwodd. Mae angen rhoi gwybod i Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

5. Cyfarfod Cyhoeddus i drafod enwau’r Gofeb:

Trefnwyd i gynnal y cyfarfod ar y 23 o Fai yn Neuadd Fach, Y Ganolfan, Llanberis.

6.Partneriaeth y Toiledau gyda CG:

Yn dilyn galwad ffôn a llythyr yn holi a oedd y Cyngor hwn am barhau a’r bartneriaeth i gadw’r toiledau ar agor trwy’r flwyddyn penderfynwyd anfon yn ôl at CG i nodi na chafwyd ymateb i’r cais am ystyried rhannu arian parcio yr holl feysydd sydd gan y Cyngor yn y pentref yn hytrach na’r un a gynigiwyd yn wreiddiol. Dim son chwaith am y gor ddefnydd (ym marn y Cyngor hwn) o Ddôl y Goeden ar gyfer digwyddiadau mawr na chwaith ddyfodol maes parcio Y Glyn (ei drwsio a chodi tâl).

7. E W Pritchard:

Roedd y Clerc wedi anfon llythyr at Wasanaeth Angladdau y Co-op i nodi anfodlonrwydd fod arwydd Saesneg fwy neu lai heb unrhyw gyfeiriad at E W Prichard wedi ymddangos yn ddiweddar ar eu hadeilad. Gofynnwyd am arwydd

dwyieithog llawn yn adlewyrchu hefyd hanes y cwmni gwreiddiol. Mae arwyddion newydd ar safleoedd eraill y cwmni yn yr ardal yn adlewyrchu eu tarddiad (enwau fel Gwilym Jones, Caernarfon a Paragon, Pen-y-groes) , holwyd pam na wnaed yr un peth yn Llanberis?

8. Beicio a difrod

Cafwyd adroddiadau am ddifrod ar lwybr Bwlch Maesgwm ar ôl digwyddiad beicio sylweddol. Does fawr o dro ers pan adferwyd rhannau o’r llwybr a phenderfynwyd anfon at Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn holi pam na reolir digwyddiadau mawr fel hyn yn well.

9. Diogelu Data:

Gyda’r ddeddf newydd i ddiogelu data yn dod i rym ar y 25 o Fai mae gofyn i bob Cyngor Cymuned wneud yn siwr ei fod yn cydymffurfio. Yn ôl a ddeallwn chaiff Clerc y Cyngor ddim bod yn Swyddog Diogelu Data felly bydd rhaid penodi rhywun allanol i wneud y gwaith ac i sicrhau fod y Cyngor yn gweithredu’n unol a’r Ddeddf. Adroddodd y Clerc iddo fynd i gyfarfod a drefnwyd gan SLCC (Cymdeithas y Clercod) yng

Nghaernarfon a chlywed cyflwyniad i’r holl fater sydd ar hyn o bryd yn ymddangos yn gymhleth. Awgrymodd gyflogi arweinydd y cwrs hwnnw i fod yn gyfrifol am y flwyddyn gyntaf. Roedd wedi derbyn pris, ac fe’i derbyniwyd. Cynnig. Bydd y Clerc yn cysylltu ac yn trefnu hynny ynghyd a chofrestru’r Cyngor gyda’r Comisiynydd Gwybodaeth.

10. Yswiriant y Cyngor:

Penderfynwyd aros efo cwmni Zurich ac i ymrwymo i ddefnyddio’r cwmni am dair blynedd er mwyn cael pris gwell.

11. Allweddîr Hysbysfyrdau:

Penderfynwyd mai dim ond aelodau’r Cyngor fyddai â gofal am allweddîr hysbysfyrdau.

12. Llafn y Cewri:

Mynegwyd siom nad oes unrhyw wybodaeth wrth droed y cleddyf i adrodd pam ei fod yno, a’i fod yn adlewyrchu cyfnod o hanes yr ardal yn nyddiau’r Tywysogion. Awgrymwyd anfon gair at CG i ofyn am blac neu bwt o eglurhad.

6 CYNLLUNIO:

CG:

- C18/014015/LL - Cais ôl weithredol ar gyfer codi adeilad fel storfa a gweithdy anfasnachol - 13 Stryd Fawr, Llanberis. - Gresyn na wnaed cais priodol, dim sylw pellach.

- C18/0233/15/LL - newid defnydd tir i ddarparu 5 llecyn parcio ffurfiol, llwybr troed newydd ac ardaloedd gardd - tir ger Ffordd Ty Du, Llanberis. Dim sylw.

- C18/0237/15/R3 - codi pont droed newydd i groesi Afon Goch rhwng Stad Glanrafon a’r hen lyfrgell ynghyd a llwybr troed - Afon Goch, Llanberis. Y Cyngor yn deall fod pryder am ddiogelwch y plant sy’n cerdded i’r ysgol, ond fe fydd plant hanner dwyreiniol y pentref yn dal i orfod defnyddio Ffordd Capel Coch pe codid y bont. Pryder a fydd ymyrraeth â thrigolion oedranus tai Glanrafon ar ôl adeiladu llwybr a phont newydd. Mae’r broblem drafnidiaeth yn codi oherwydd fod cymaint o rieni yn mynnu cario eu plant mewn ceir i’r ysgol. Oni fydd adeiladu’r bont yma yn symud y broblem i waelod Lôn Ty Du a chreu trafferthion yno ac ar y gyffordd ger Pont Huws Drygist?

Roedd aelodau’r Cyngor hwn hefyd wedi eu syfrdanu na fu ymgynghori cyn gwneud cais cynllunio. Engraifft arall o un o adrannau Cyngor Gwynedd yn gweithredu’n drahaus a haerllug.

- C18/0241/15/LL - gwaith adnewyddu sy’n cynnwys rhannol ddymchwel yr adeilad presennol, tirlunio, creu mynedfa adeiladu dros dro ynghyd a chodi canopi - Canolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru, Llanberis. - Dim Sylw.

- C18/0245/15/LL - codi ty - tir gyferbyn Coed y Glyn, Llanberis - ei weld braidd yn fawr i safle cymharol fychan ac allwg.

- C18/0289/15/LL - codi estyniad unllawr yn lle estyniad presennol ar gefn yr eiddo - 15 Stryd Siarlot, Llanberis. Dim Sylw

- C18/0318/15/CC - gwaith i goed sy’n destun gorchymyn gwarchod coed - Bryn Du Ffordd Ty Du, Llanberis - Os yw’r coed yn beryglus, dim gwrthwynebiad.

7 GOHEBIAETH:

1. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg:

Yn galw am gefnogaeth y Cyngor i geisio ymestyn tymor y Clybiau Ieuencid, a thrafod y camau nesaf.

2. Cyngor Gwynedd:

Derbyniwyd yr amserlen newydd ar gyfer bysiau lleol.

3. Ras yr Wyddfa - Ras y Plant:

Cais caredig am i’r Cyngor dalu’n uniongyrcholi i Ras y Plant unrhyw gymorth ariannol a gynigir yn y dyfodol, yn hytrach na’i anfon i’r Ras Fawr.

4. Ymgych Diogelu Cymru Wledig:

Llythyr am gystadleuaeth pentrefi gweithgar gan YDCW, gyda cyfarfod ym Mhorthmadog ar gyfer siroedd Caernarfon a Meirionnydd. Gofynnwyd i’r Cadeirydd a’r Clerc fynd yno ar ran y Cyngor.

5. Sefydliad Steve Morgan:

Yn cynnig arian tuag at offer i bobl ac anabledau. Gofynnwyd i’r aelodau ystyried a oedd rhywun a allai fanteisio ar gynnig fel hyn.

6. Cyfoeth Naturiol Cymru:

Llythyr oddi wrth CNC yn nodi fod ymgynghori pellach ynglyn a’r llygredd a aeth i Lyn Padarn o weithfeydd trin carthion Dŵr Cymru (DC) rai blynyddoedd yn ôl. Llythyr hefyd oddi wrth DC yn nodi fod gwaith sylweddol a gwarinar anferthol wedi bod i sicrhau na fydd unrhyw lygredd tebyg yn y dyfodol, gan nodi hefyd fod cyfraniad wedi ei wneud i’r Gymuned trwy oleuo’r cae chwarae a’r ymgych ‘Caru ein Llyn’.

7. CG Cau ffordd.

Cau ffordd A4086 o Faes Parcio Nantperis hyd at Benygwryd er mwyn cynnal Treiathlon Slateman ar y 19eg o Fai. Bydd y ffordd ar gau rhwng 9yb a 12.15yp. Mynegwyd siom fod y ffordd i’w chau am gymaint o amser.

8 LLWYBRAU a’r FYNWENT a CAE CHWARAE MIN Y LLYN:

1. Y Fynwent:

Adroddwyd bod 16 metr o glawdd y Fynwent yn y gornel bellaf ddwyreiniol wedi ei ail godi . Derbyniodd y gwaith ganmoliaeth.

2. Cae Chwarae:

Yn dilyn arolwg arferol blynyddol y cwmni yswiriant bu’n rhaid gwneud mân welliannau i beth o offer y cae chwarae. Soniwyd eto y dylid ystyried ffensio yr offer pren a rhaff. Pe bae’r cyngor yn ei ffensio byddai’n rhaid wrth ddwy giat a byddai’r gost yn sylweddol. Fel arfer plant hyn sy’n defnyddio’r offer neu rhai a rhywun yn eu gwarchod ac felly penderfynwyd nad oedd y risg o rywun fynd allan oddi yma i’r ffordd fawr ddim mwy na phe bai’r plant ar y llain tir cyfagos ar lan y llyn, sydd hefyd o fewn cyrraedd hwylus i’r giat. O ystyried y risg penderfynwyd nad oedd yn ddigonol i gyfiawnhau ffensio’r offer chwarae yma.

9 CYFARFOD NESAF:

Yn Y Ganolfan, Llanberis nos Fercher 13 Mehefin, 2018 am 7yh.

Un funud fach ...

ANGEN GRAS

Y tro diwethaf i mi ddod adref o Lerpwl, mi ges fy nal mewn traffig trwm ar Lannau Dyfrdwy; a llusgo dod y bŵm i wedyn am filltiroedd. Erbyn cyrraedd adref am chwarter i un ar ddeg, roeddwn wedi bod ar y lôn am yn agos i awr yn hwy nag arfer. Y noson honno, fedrwn i ddim dweud yn union faint mwy o amser am nad oeddwn yn cofio pa mor agos i wyth o'r gloch yr oeddwn wedi gadael Lerpwl. Ond erbyn hyn, os na fedraf ddweud pryd y gadewais Lerpwl, mi fedraf ddweud fy mod wedi croesi'r Mersey Gateway ar gyrion Runcorn am hanner awr wedi wyth (neu 20.30, yn ôl y 'Penalty Charge Notice' a dderbyniais ers hynny am anghofio mynd ar-lein i dalu'r doll am groesi'r bont). Ers agor y bont fis Hydref rwyf wedi atgoffa teulu a ffrindiau o'r angen i dalu rhag cael dirwy. Ond er gwneud hynny, mi anghofiais bopeth am y doll y noson honno.

Hen brofiad diflas oedd anghofio a minnau wedi rhybuddio eraill rhag gwneud hynny. Wrth ysgrifennu at Gristnogion Corinth, mae Paul yn dweud ei fod yn ymdrechu i fyw'r bywyd Cristnogol 'rhag i mi, sydd wedi pregethu i eraill, fy nghael fy hun yn wrthodedig' (1 Cor. 9:27). A dyna eiriau y gall pob pregethwr a gweinidog, a phob Cristion sy'n tystio wrth eraill am yr Arglwydd Iesu Grist, gydio ynddynt. Wrth ddisgrifio'r bywyd Cristnogol fel ras i'w rhedeg a brwydr i'w hymladd, roedd Paul yn cydnabod yn onest y posibilrwydd y gallai efa'i debygson am y pethau hyn gan annog eraill i'w rhedeg a'u hymladd, heb wneud hynny eu hunain. I Paul, ac i ninnau, fyddai dim yn fwy trasig na hynny. Ond y mae'r trasig yn bosibl. Mae modd annog eraill i edifarhau, heb edifarhau ein hunain. Mae'n bosibl galw ar bobl i gredu'r Efengyl, heb wir ei chredu ein hunain. Mae modd cymeradwyo Iesu Grist i eraill, heb wir brofi ei dangnefedd yn ein bywydau ein hunain. Mae'n bosibl canmol tosturi a chariad Duw heb ei brofi ein hunain.

Ydi, mae hyn yn bosibl, ond mae gras Duw yn ein cadw rhag bod felly. A diolch am hynny. Ia, diolch am y gras sy'n ein galluogi i edifarhau, i gredu yng Nghrist, i bwysio arno am faddeuant, i ymdrechu i fyw yn debyg iddo, ac i dderbyn pob nerth a chymorth a chysur sydd ei angen arnom o ddydd i ddydd. Gras Duw, a gras Duw yn unig sy'n sicrhau na fydd y peth trasig y mae Paul yn sôn amdano yn wir amdanom ni.

JOHN PRITCHARD

Premier

Y Storfa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

Eich barn am Gynllun Hybu'r Gymraeg Cyngor Gwynedd ar gyfer 2018-2023

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio a chyhoeddi dogfen strategol sydd yn dangos sut mae'n bwriadu mynd ati i hybu defnydd o'r Gymraeg a chynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr ar draws y sir.

Mae'r Cyngor felly yn cyhoeddi 'Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023', fel drafft ymgynghorol, ac yn gwahodd trigolion a sefydliadau i fynegi barn a chynnig sylwadau ar ei chynnwys.

Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i glywed barn trigolion y sir a chyrrff eraill ar y cynllun hybu a'r blaenoriaethau y dylid eu gosod ar gyfer hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r iaith ar draws y sir dros y pum mlynedd nesaf.

Meddai Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn: "Mae gan y Cyngor hanes anrhydeddus o hybu a gwarchod yr iaith fel cyfrwng cyfathrebu naturiol ei wasanaethau, ac o weithio i sicrhau fod holl drigolion y sir yn cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

"Fel rhan o'r gwaith yma, rydym wedi paratoi Cynllun ar gyfer y cyfnod 2018 hyd 2023 sy'n nodi rhai o'r cyfleoedd sydd ar gael i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd, i gynnal ei statws fel cadarnle'r Gymraeg, ac yn nodi blaenoriaethau mewn sawl maes. Mae hefyd yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau sydd wedi eu nodi yn rhai o gynlluniau eraill y Cyngor, megis y Strategaeth Iaith Uwchradd a'r Cynllun Llesiant.

"Mae'r Cynllun drafft yn cyfeirio at y meysydd hynny lle mae gan y Cyngor ddylanwad drostynt a lle yr ydym o'r farn y gellir gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y tymor byr, yn ogystal a gosod sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol. Mae'r pwyslais yn gryf ar ganfod cyfleoedd i gynyddu defnydd trigolion Gwynedd o'r Gymraeg ym mhob rhan o'u bywydau, ac ar gael i'r bobl hynny sydd eisoes â gallu yn y Gymraeg i deimlo balchder a hyder yn yr iaith.

"Rydym yn ymwybodol iawn na fydd posib i'r Cyngor weithredu ar ei ben ei hun i wireddu rhai o'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun, ac felly bydd angen parhau i gydweithio gyda sawl partner a chorff allanol er mwyn cyrraedd y nod.

"Byddem yn annog unrhyw un sydd â diddordeb yn y maes i fwrw golwg ar y Cynllun drafft ac i gyflwyno sylwadau. Bydd yr holl sylwadau y cael eu hystyried yn ofalus wrth i ni ystyried y ffordd ymlaen a chytuno ar gynllun terfynol."

Bydd y cyfnod ymgynghori ar Gynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd yn para nes 5 Mehefin 2018. Gallwch ymateb mewn sawl ffordd:

Drwy ateb yr holiadur ar lein: www.gwynedd.llyw.cymru/CynllunHybu

Drwy anfon ymatebion dros e-bost at: cydraddoldebaciaith@gwynedd.llyw.cymru

Anfon ymatebion papur at: Ymgynghoriad Cynllun Hybu, Uned Iaith, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.

Ar ben arall i'r lein



Peidiwch a disgwyl mai pysgota'n unig yw'r testun heddiw, ond tro gyda gyda'r enwair i ddechrau, gyda mater sydd wedi bod yn rhygnu 'mlaen er dros chwarter canrif. Mae'n debyg bydd rhai yn dweud, o dim Llyn Llanberis eto!, wrth gwrs mi fydd y rhain yn llygaid eu lle. Ond cyn gobeithio cau y llyfr ar y saga warthus yma lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru wedi bod yn defnyddio pob tric yn y byd cyfreithiol i daflu gorchudd tros eu amharodrwydd i wynebu a gweithredu ar be oedd, yn y pen draw, y drychineb amgylcheddol fwyaf sydd wedi digwydd yng Ngogledd Cymru. Tydw i ddim am ymhelaethu mwy ar hyn gan, fel y gwyddoch chi, mae digon wedi ei ddweud dros y blynyddoedd. Ond, diolch i'r drefn, mae amodau llym ar arllwysiadau o waith trin Llanberis wedi dod i rym. Mae'r cwmni dŵr felly yn naturiol wedi gorfod gweithredu ar raglen wella, fel mae trigolion Llanberis yn tystio gyda'r gwaith sydd yn mynd ymlaen drwy'r pentref.

Felly i gau y saga yma rwy'n teimlo y dylai bro'r Eco gael y wybodaeth am y cam olaf sydd ar y gweill. Ar 18 Ebrill derbyniwyd llythyr gan Gyfoeth Naturiol Cymru dan y pennawd 'Cynnig adfer Dŵr Cymru mewn ymateb i hysbysiad o atebolrwydd ar gyfer difrod amgylcheddol i Lyn Padarn, Llanberis, Gwynedd'. A hyn ar sail cwyn gan y gymdeithas ynglŷn â safon yr arllwysiadau.

Mae'r llythyr yn ehangu ar hyn fel a ganlyn: 'Wedi'r ymchwiliad daethom i'r casgliad fod y gwaith trin carthion yn Llanberis, sy'n eiddo i Dŵr Cymru, wedi chware rôl bwysig wrth achosi difrod amgylcheddol i'r llyn a'i fod wedi cyfrannu at y blwm algaidd yn 2009.' Yn ychwanegol mae gwahoddiad i'r gymdeithas ymateb i gynigion Dŵr Cymru ar pwy sy'n deilwng am iawn, un ai yn unigolion neu'n sefydliadau a effeithiwyd gan broblemau'r llyn. 'Roedd yn gryn syndod imi ddeall oddi wrth yr ohebiaeth bod camau wedi bod ar y gweill ers peth amser i ennyn diddordeb rhan-ddeiliaid ar pwy sy'n deilwng a pha iawn ddylid ei gydnabod. Wel, mae'n fwy nag amlwg mai'r Gymdeithas yw perchenogion y rhan fwyaf o hawliau pysgota'r llyn ac felly wedi gorfod wynebu a dioddef problemau mawr oherwydd be oedd yn digwydd. A wyddoch chi be? doedd neb wedi cysylltu i ofyn be fuasai'n bosib ei wneud i wella'r bysgodfa. Efallai bod hyn rhywbeth i'w wneud â'r ffaith mai'r clwb oedd yn gyfrifol am arwain y frwydr i gael yr awdurdodau i weithredu. Dal llid efallai am yr holl waith sydd wedi gorfod dod i ffordd yr awdurdodau. Ond, fodd bynnag, dyma gyfle dwi'n gwir obeithio i gladdu unwaith ac am byth yr hen fwyelli rhyfel rhyngom ac sydd wedi bod yn gwmpas y lle ers blynyddoedd.

Erbyn 21 Mai (yfory) mae'n rhaid inni roi i mewn ein cynigion i'w cysidro os oes unrhyw gydnabyddiaeth am ddod i ffordd y Gymdeithas. Ein cais fydd bod CNC a DC yn buddsoddi rhyw ychydig mewn sustem oeri ac ailgylchu dŵr yn ein deorfa yn Crawia. Dyna di'r joban yn dilyn gwneud yr adroddiad yma yw sicrhau bod ein cais o flaen y swyddog perthnasol ym Mhlas y Ffynnon, Penrhosgarnedd erbyn bore yfory. O, ia, mae'n siŵr y buasai gennych ddiddordeb mewn cael gwybod pwy sydd wedi cael rhyw gil dwrn gan Dŵr Cymru yn barod – Pwy sy'n cofio rhyw gorff a sefydlwyd yn Llanberis dan yr enw 'Caru ein Llyn'? Mae wedi hen fynd i rhywle erbyn heddiw heb adael dim o fudd ar ei ôl – fe dderbyniodd y corff yma £68,000. Ac mae £11,000 arall wedi mynd i roi llifoleuadau ar gae chwaraeon Llanberis. Cawn weld a ddaw rhywbeth i ffordd y Gymdeithas i roi cymorth at y gwaith o wella'r dyfroedd, byw mewn gobaith – efallai wir.

Un bach ychwanegol o ddiddordeb gyda Padarn – mae rhywogaethau pysgod y llyn yn newid, unwaith dim ond brithyll, torgoch, eog a

gwyniadau oedd ar eu nofiad yno. Ond, ers rhai blynyddoedd, mae poblogaeth o ddraenogiaid wedi cynyddu allan o pob dychymyg. Wel, dyma ymwelwr arall ddaeth o ddyfroedd y llyn yn ystod Ebrill - Pencath Pluog Affricanaidd (African Feathered Catfish). 'Rwyf wedi cael fy sicrhau fod hyn yn berffaith wir, gan fod llun o'r creadur wedi dod i law. Ond cofiwch, tydi pysgod anghyffredin ddim yn ddieithr i Padarn – fel llun o bysgodyn môr – pen-ci a ddaliwyd o'r Afon Hwch. Cyhoeddwyd y llun yn rhifyn Ebrill 1977 o'r Eco. Ydi tynnu coes yn dal i fod yn fyw ac yn iach o gwmpas y lle ma o hyd 'dwch?

Daeth cryn wên ar wynebaw 'sgotwr eog a gwyniadau'r fro rhyw dair wythnos yn ôl gyda'r newyddion fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gohirio eu cais dadleuol i gyflwyno is ddeddfau llym yn ymwneud â physgota. Dileu tan y flwyddyn nesaf medda nhw. Ond sgwn i faint o bwysau ddaeth gan y Llywodraeth yng Nghaerdydd i roi dylanwad i'r cyhoeddiad yma. Dwi'n cyfaddef fy mod wedi bod yn eithaf beirniadol am sut mae pethau'n cael ei gweithredu lawr yn Nghaerdydd cyn belled ac mae pysgota yn y cwestiwn. Ond efallai fod pethau ar dro, a bod pwysigrwydd pysgota i economi cefn gwlad o'r diwedd yn cael y sylw priodol. Diolch i Sian Gwenllian a Rhun ap Iorwerth am eu cefnogaeth gyda'r mater holl bwysig yma.

Mae rhai yn dweud mai un waith y daw perffeithrwydd eich ffordd. Wel, diolch i'r drefn, dwi di bod yn eithriadol o ffodus o gael llawer o ddiwrnodau perffaith, yn fy ngolwg i o leiaf. Mae hyn, wrth gwrs, pan mae'r eog mawr yn brathu. Eleni 'rwyf wedi bod yn eithriadol o ffodus unwaith eto o gael profiad perffaith – Dydd Gwener, 4 Mai eleni, ac allan ar y cwch ar Lyn Dinas, cefais eog y gwanwyn tua 10pwys. Ac wrth ei ollwng yn ôl i'r llyn dyma'r gog y canu ei phen i ffwrdd. A dyma'r unig dro imi ei chlywed eleni. Rhaid diolch i'm cyd 'sgotwr, sef Dr. Robin Parry. Llanberis am fod mor fedrus â'r rhwyd.

Os oes rhai â diddordeb, mae gwaith cynnal i wneud eto eleni. Mae gwahoddiad i unrhyw un neu rai sydd â diddordeb mewn torri rhai o lwybrau'r glannau i gysylltu â mi i drafod telerau.

Mis diwethaf roeddwn yn holi am wybodaeth am lun Ruth Williams o'r Rhiw Goch, Clwt y Bont. Cefais alwad gan Ruth Iolen Jones o Lansadwrn, neu Ruth Garth i ni sydd yn ei hadnabod. Dywedodd Ruth fod y llun wedi bod yn cael ei arddangos yn nhŷ ei nain yn Rhiw Goch pan oedd yn blentyn. Gobeithio fy mod wedi cael hyn yn iawn – Merch i chwaer taid Ruth Iolen oedd Ruth Williams, sef merch i William Richard a Mair Williams, Rhiw Goch. Diddorol dros ben oedd deall fod William Richard yn Pencerdd Iolen.

I rai sydd â chof da, holais beth amser yn ôl am wybodaeth am y Pencerddi yma, ond ddaeth dim fy ffordd. Y rheswm am hyn, wrth gwrs, yw gan fod hen daid Pat yn Bencerdd Gwyrfaï – oes na rhywbeth i ddod ymhellach am hyn 'sgwn i?

Ymhelaethodd Ruth fod y llun, ymhen amser, wedi ei symud i'w arddangos yn festri Ysgoldy, ac o bosib drwy gau a chwalu'r capel, y tebygrwydd yw ei fod wedi cael ei symud i Lwyn Iorwg. Cefais dipyn mwy o wybodaeth a oedd o ddiddordeb, gan fod llestri Cymun yn yr Ysgoldy, hefyd wedi eu rhoi er cof am Ruth Williams, ble mae rheini erbyn heddiw tybed?

Wel dyma ddigon am y tro, ond gobeithio fod gan y golygydd ddigon o le i'r lluniau!!

Huw Price Hughes.

Clwb Pel-droed yn dathlu penblwydd

Yn 1968 ail-sefydlwyd Clwb Pel-droed Llanrug, a hynny wedi degawd a mwy o fod heb dim yn y pentref. Dechreuwyd chwarae ar gae Eithin Duon yn hen Gynghrair Caernarfon a'r Cylch. Mae'r Clwb wedi aros ar y cae byth ers hynny, ar wahan i alltudio dros dro yng Nghefn Llwyd a chae Ysgol Brynrefail tra'r oedd gwelliannau'n cael eu gwneud i wyneb y cae. Eleni mae'r Clwb yn dathlu ei benblwydd yn hanner cant, a pha well ffordd o wneud hynny na gorffen yn y safle uchaf erioed yn hanes y tim, sef trydydd yng Nghynghrair Cymru Alliance.

Ar nos Sadwrn, 16eg o Fehefin bydd dathliad swyddogol yn cael ei gynnal yng Nghlwb Pel-droed Caernarfon am 7.00 yr hwyr. Y gŵr gwadd fydd Wayne Phillips, a fu'n chwarae i dim Llanrug cyn gadael am yrfa broffesiynol gyda Chlwb Wrecsam. Ymhlith y gwahoddedigion eraill bydd aelodau'r tim cyntaf nôl yn 1968; aelodau'r tim dan Howyn Jones a enillodd Gwpan Iau Gogledd Cymru ddwywaith yn y 1970'au; aelodau'r tim dan Aled Owen a enillodd Dlws Pel-droed Cymru yn 2014, a chwaraewyr y ddau dim presennol.

Bydd bwffe am ddim i bawb, gyda disgo a charioci i ddilyn. Meddai Kevin Owen ar ran y Clwb, "Mae croeso cynnes i bawb sydd wedi bod yn gefnogol i'r Clwb dros y blynyddoedd, boed yn chwaraewyr, swyddogion neu gefnogwyr. Dowch draw i ddathlu'r achlysur." Noson i hel atgofion a noson i'w chofio felly!

TLWS YRECO, 2018

Do, fe fu Lindsey o Ddeiniolen ar y ffôn. "Ydan ni am gael cynnal y gystadleuaeth yn Deiniolen eto eleni?" Chwi gofiwch mai brwdfrydedd Lindsey achubodd y Tlws llynedd. Dim ond 4 tim. Ymlaen a ni a chwip o noson. Ymlaen a ni felly, a cheisio fformat gwahanol i geisio cael mwy o ymateb. Dyma'r cynnig. Cystadleuaeth dan 12 a dan 10 fel oeddrannau y gynghrair lleol ond gyda thimau 5 POB OCHOR. O geisio'r dull yma gobeithio y gall pentrefi sydd heb dim cynghrair ffurfio tim o fechgyn/merched sy'n byw yn y pentrefi hynny. Dyma gyfle efallai i roi cyfle i blant na fuasai yn cael cyfle fel arall. Nid yr ennill sy'n bwysig bob tro. Rwyn siwr y gallai Deiniolen, Llanrug, Bethel, Llanberis a'r Waunfawr godi timau, ac efallai cyfle i bentrefi llai ffurfio tim fel oedd yn digwydd pan oedd y gystadleuaeth rhwng ysgolion yr ardal. Os aiff y gystadleuaeth yn ei blaen eleni hon fydd rhif 40 i mi ei drefnu. Beth am gystadlu a gwireddu breuddwyd hen gojar? Os bydd yr ymateb yn ffafriol cysyllter y rheolwyr a mi (01248 670115) ac mi ddanfona y manylion i chwi. Y dyddiad? NOS FERCHER, GORFFENNAF 4ydd am 6pm ar Gae'r Bwthyn yn Neiniolen. Rwy'n dechrau arogl i y Cwn Poeth – a'r nionod yn barod!

Diwedd y tymor pel-droed

Safle		Chwarae	Ennill	Cyfartal	Colli	O Blaid	Yn Erbyn	Pwyntiau
3	Llanrug	28	12	12	4	64	51	48
4	Llanberis	28	14	4	10	43	55	46

....a daeth y tymor pel-droed i ben, gyda Llanrug yn gorffen y tymor yn drydydd yng Nghynghrair Welsh Alliance; trwch blewyn a dau bwynt yn unig ar y blaen i Lanberis, a ddaeth yn bedwerydd. A dyma, o bosib, y safleoedd uchaf i'r ddau glwb yn hanes y gynghrair.

Dechrau tymor digon simsan i Lanberis, ond cryfhau erbyn canol a diwedd. Ac er mai pedair gêm yn unig a gollwyd gan Lanrug, gormod o gemau cyfartal oedd y prif reswm pam nad oeddent yn cystadlu am y bencampwriaeth.

Llongyfarchiadau hefyd i ail dim Llanberis am ennill Cwpan Sialens Tân Gwylt eu cynghrair, gan guro Cyffordd Llandudno o bedair gôl i ddim.

Ond nid cryfhau eu carfannau ac ennill mwy o bwyntiau fydd yn denu holl sylw'r ddau dim y tymor nesaf. Mae Cymdeithas Bel-droed Cymru wedi penderfynu fod angen i glybiau sy'n aelodau o'r Gynghrair hon fod â chaeau mwy o ran maint. A dyna'r broblem i'r ddau glwb: does gan Lanrug na Llanberis ddigon o le i ledi eu cae. A heb gae o'r maint 'safonol' y bygythiad yw cael gostyngiad i gynghrair is. Amser a ddengys sut y caiff y broblem hon ei datrys.

Gorffennodd y Waunfawr yng nghanol Cynghrair Gwynedd.

A pheidied ac anghofio timau merched y fro chwaith. Daeth llwyddiant unwaith eto i dim merched dan 16 oed Bethel, yn ennill Cwpan Arfordir Gogledd Cymru, a churo Wrecsam o 2 – 0 yn y gem derfynol.

Daeth tim genethod dan 12 oed Llanrug yn bedwerydd yng Nghynghrair Gogledd Cymru, ond colli yn ffeinal Cwpan y Gynghrair.

ECO'r
Wyddfa

Cefnogwch ein
hysbysebwr

grid76
graphic design

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | A9 | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

01286 673535

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG

BACHU AR Y CYFLE

Dyna’n sicr wnaeth aelodau Clwb Cinio Arfon yn ddiweddar a manteisio ar ymweliad cyn-fachwr Cymru Robin McBryde â’i fam sy’n byw ym Mrynrefail. Cafwyd noson hwyliog, yn datgelu awyrgylch ac agweddau y gêm rygbi fodern. Rhannwyd y sgwrs yn ddau ran, y cyntaf yn dilyn ei yrfa fel chwaraewr a hyfforddwr, cyn cael ail ran o sesiwn holi ac ateb.

O rygbi lefel ieuenctid ym Morthaethwy a’r Wyddgrug ble bu’n ffodus i dderbyn hyfforddiant o’r flaen uchaf. Ymlaen wedyn i chwarae i Abertawe, ac ymgaertrefu yng Nghwm Gwendraeth. Symudiad fu o’i fodd, gan fod rygbi dosbarth cyntaf yn mynnu ymroddiad a chystadleuaeth. Yn wir, roedd y bachwr y cymerodd Robin ei le yn nhim y Gwynion yn ddarpar brawd ynghyfraith iddo. Croesi Afon Llchwyr wedyn ac ymuno â’r Scarlets ac awyrgylch drydanol, beirniadol ac un-llygeidiog Y Strade. Yn 1992 ennill teitl ‘dyn cryfaf Cymru’. Yn ei dro, chwarae 250 o gemau i’r Scarlets gan fod yn gapten yno. Daeth yr alwad genedlaethol yn 1994 yn erbyn Fiji yna yn ennill 37 cap gan sgorio un cais yn erbyn Canada. Bu’n aelod o garfan y Llewod yn 2001. Yna cael cyfle i hyfforddi yn 2005 gyda thim ieuenctid y Scarlets. Arweiniodd hyn yn y man i Robin reoli tim Cymru ar y daith i Ganada/ UDA pan oedd Gatland gyda’r Llewod.

Aeth ymlaen i fyd rygbi rhyngwladol modern wedyn. Ar y lefel yma mae awyrgylch o gwmpas y garfan yn holl-bwysig. Rhaid wrth ddisgyblaeth, hunan asesiad ac ymroddiad llwyr. Yn ddios meddai Robin roedd cyfraniad y tri Kiwi Henry, Hansen a Gatland wedi newid agweddau’r Cymru. Daeth cyfnod chwalu ambell hen draddodiad ac yn sicr gwella ffitrwydd. Daeth dewis y garfan yn wyddonol bron. Agwedd yr unigolyn, safon ei chwarae i’w ranbarth yn gyson. Y gallu i ymateb ar amrantiad. Deall cymeriad yr unigolyn. Pryd oedd amser beirniadu, pryd roedd amser y ‘mwytha’. A chofio mai prin bellach yw lle i’r ‘unigolyn’, beth bynnag ei allu , oherwydd carfan cenedlaethol yw’r galw bellach.

Datgelodd un ystadegyn rhyfeddol iawn. Disgwyliir i ffitrwydd tim Cymru ennill gemau os yw’r bêl ar dir y chwarae am 42 munud – cyfnod hir. Dyna pam mae Cymru yn mynnu cicio i’r tir agored



yn hytrach na thros yr ystlys. Diddorol ei sylw mai Iwerddon – nid Lloegr- yw’r gelyn mawr bellach ymysg y chwaraewyr. Dyma’r gêm gorfforol bellach. Problem ddiweddar i Gymru yn ddiweddar yw fod y Gwyddelod wedi datblygu system chwarae ble gall y bêl fod ar dir y chwarae am gyn-lleied â 32 munud.

Cafwyd ambell i gwestiwn da, yn ymwneud a gor-bwysigrwydd y TMO yn y gêm. Datblygiad clwb RGC ac am sawl tymor y bydd yr Undeb yn dal i bwmpio arian i gyfeiriad y gogledd. Beth yw ei farn ar Eddie Jones? Pa mor galed yw’r hyfforddwr Sean Edwards? Dyfynodd agwedd Sean at yr unigolyn – “ If I criticise you it shows I care about you”. Faint o dda ydy Nigel Owens? Y gorau, y mwyaf cyson.

Ond daeth a’r orig i ben gan ddweud mai uchafbwynt ei fywyd oedd dilyn yr unigryw Ray Gravell fel Ceidwad y Cledd. Chwaraewr onest a dyn onest yw Robyn McBryde. Diolch am ei gyfraniad.

Ar Frig y Gynghrair



Llongyfarchiadau i dim hoci Caernarfon ar ennill Adran 2 o Gynghrair Hoci Gogledd Cymru. Mae’r tim yn chwarae ar gae Ysgol Brynrefail, ac y mae llawer o’r aelodau yn byw yn y fro.



Na, doedd coesau neb yn brifo yn dilyn ras Pen Dinas yn Nant Peris ddiwedd mis Ebrill, a hynny oherwydd mai’r tywydd oedd yn fuddugol. Ac am y tro cyntaf yn hanes Cyfres Nos Fawrth bu’n rhaid gohirio ras. A bu bron i hynny ddigwydd ganol fis Mai hefyd yn Abergwyngregyn. Fel roedd y ras yn cychwyn gwaethygodd y tywydd a daeth y niwl i lawr; niwl digon trwchus i dwyllo pedwar o redwyr a ddilynodd y llwybr anghywir a gorffen yn Llanfairfechan! Ond gwres oedd y broblem yn Glossop ychydig ddyddiau yn ddiweddarach. Yno y cynhaliwyd Cystadleuaeth Rhyng-sirol Rasys Mynydd Prydain eleni, ac yr oedd pedwar o’r fro yn cynrychioli gogledd Cymru. Daeth Bronwen Jenkinson yn ail ferch (a chyntaf dan 23 oed), a hynny’n ddim ond wyth eiliad tu ôl i’r enillydd, Emma Clayton; un a fu’n bencampwraig Prydain ar sawl achlysur yn y gorffennol. Roedd Sarah Harley o Frynrefail hefyd yn y tim, a ddaeth yn seithfed yn y ras. Roedd y gystadleuaeth mor dynn fel nad oedd ond 13 pwynt rhyngddynt â’r enillywr. Mathew Roberts a Paul Jenkinson (tad Bronwen) oedd yn y tim dynion. Fel roedd yr “Eco” yn mynd i’r wasg, doedd safle y tim dynion ddim wedi ei gadarnhau – ond doedd dim medal! Llongyfarchion i Gareth Hughes hefyd am ennill Ras y Moelwyn yn gynharach yn y mis

Chwaraeon

Pencampwyr Ysgolion Cymru: Ysgol Brynrefail



Llongyfarchiadau i dim dan 18 oed Ysgol Brynrefail ar ennill Cwpan Ysgolion Cymru. Chwaraewyd y gêm ar gae TNS yng Nghroesoswallt yn erbyn tim Ysgol Teilo Sant. Roedd Ysgol Brynrefail ar y blaen 3 - 0 ar hanner amser, ac er i'r tim o'r de frwydro'n ôl, roedd yn fuddugoliaeth haeddiannol o 3-2 ar y diwedd. Dyma barhau traddodiad balch yr ysgol yn y cystadleuthau ysgolion.

Rhedeg Hanner Marathon Lerpwl



Elen, Donna, Gwenllian, Einir, Christine, Ann a Iorwen



Julie, Shan a Catrin



Iwan Morris, Bethel

Mentrodd unarddeg o aelodau Clwb Rhedeg DVT i Lerpwl ym mis Mai a herio'r ras hanner marathon. Cafwyd diwrnod i'w gofio, ond diwrnod buddiol hefyd gan fod Shan wedi ei noddi i redeg y ras, a chasglu dros £500 tuag at Elusen Mcmillan er cof am ei mam.

Clwb wedi ei sefydlu'n ddiweddar yw DVT, ond maent bellach wedi ymaelodi gyda Chymdeithas Athletau Cymru, ac yn croesawu aelodau newydd, boed yn ddechreuwr dibrofiad neu'n hen lawiau ar redeg marathon! Lee Davitt o Lanrug yw'r hyfforddwr, gydag Awen ei wraig a Gari Taylor yn gymwys i arwain sesiynnau rhedeg. Maent yn cynnal dwy sesiwn ymarfer yr wythnos: nos Fawrth am 6.30 a nos Wener am 7.00. Maent yn cyfarfod yn Lanberis. Am fwy o wybodaeth ewch i'w tudalen Facebook 'Clwb Rhedeg DVT'.

Llances y Llechen



Roedd hi'n benwythnos Triathlon Llanc y Llechen yn ystod y mis, gyda chystadleuthau ar y Sadwrn a'r Sul. Denwyd rhai cannoedd o athletwyr o bob rhan o'r wlad a thu hwnt i Lanberis, ac yr oedd y tywydd yn hynod o ffafriol – i'r cefnogwyr. Digon posib fod nifer o'r cystadleuwyr yn ei themlo'n rhy boeth i feicio a rhedeg, ond dwr Llyn Padarn yn dal yn oer!

Cynhaliwyd y 'sbrint' ar y Sadwrn a'r Triathlon llawn ar y Sul – ac yr oedd nifer dda yn ddigon dewr (neu'n ddigon gwirion) i gystadlu yn y ddwy gamp. Eleni, cynhaliwyd Dwyathlon ar y Sadwrn, sef hepgor y nofio. Rhedeg ym Mharc Padarn, beicio i Ben y Gwryd ac yn ôl i redeg eto ym Mharc Padarn. Roedd tua hanner cant yn cystadlu yn y gamp, ac yn wahanol i'r ddwy Driathlon, cafwyd llwyddiant lleol: Rhian Thomas o Lanrug yn gorffen yn drydedd ferch ac yn nawfed yn y ras. Llongyfarchiadau hefyd i bawb arall o'r fro a gwblhaodd unrhyw un o'r tair cystadleuaeth.